

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 332 - 60c
Ebrill 2015

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Ffrog Betsan
ar y brig yn
Abertawe**



Tudalen 2

**Llais swynol
Beca yn 'Only
Kids Aloud'**



Tudalen 12

**Llyfr
Insbector
Ken Lewis**



Tudalen 13

Llongyfarchiadau i chi gyd



Llongyfarchiadau i Iwan Evans, Parcyrrhos, Cwrtnewydd ar gael ei ddewis yng ngharfan Tîm Cymysg Agored Rygbi Cyffwrdd, Touch Rugby, Cymru. Bydd Iwan yn teithio i Awstralia yn ystod y mis, er mwyn cynrychioli'i wlad yng Nghwpan Rygbi Cyffwrdd y Byd, lle bydd yn chwarae yn erbyn timoedd gorau'r byd fel Awstralia, Seland Newydd a De Affrica. Mae Iwan wedi bod yn ymarfer yng Nghaerdydd bob yn ail penwythnos ers Hydref 2014, er mwyn paratoi ar gyfer Cwpan y Byd; fe'i cynhelir rhwng 29ain Ebrill, a 3ydd Mai. Iwan yw'r ifancaf yn y garfan o 16 chwaraewr, a'r unig un sy'n dod o orllewin Cymru. Pob lwc i ti.



Grŵp Hip Hop/Stryd/Disgo Bl. 6 ac Iau - Ysgol Bro Pedr 1af yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd.



Heiddwen Tomos, Dôl mebyd, Pencarreg enillodd Wobr Stori Fer Taliesin a BBC Radio Cymru gyda'i stori 'Cathe'. Mae Heiddwen yn ennill gwobr ariannol o £1,000 ac mae ei stori yn ymddangos yn ei chyfanrwydd yn rhifyn Gwanwyn o Taliesin. Tipyn o gamp yn wir.



Sion Aled Evans o Gwmann a brofodd lwyddiant mewn cystadleuaeth motocross ar lefel Cymru a Phrydain yn ystod 2014. Pob hwyl i Siôn wrth iddo symud mlaen i gystadlu yn nosbarth beiciau modur 65cc yn 2015.

Llongyfarchiadau



Mae Betsan Jones yn aelod o CFfi Llanllwni ac wedi ymddiddori yn fawr iawn yn y byd Gwniadwaith. Fe wnaeth ennill cystadleuaeth Gwinio a Modelu dilledyn ar lefel Sir yn ystod wythnos y Pantomeim a bu'n cynrychioli Sir Gâr ar lefel Cenedlaethol yn ystod penwythnos y Pantomeim yn Abertawe. Betsan ddaeth i'r brig gyda gwisg las hyfryd wedi ei chreu

ganddi a bydd nawr yn cynrychioli Cymru yn Swydd Stafford nes ymlaen yn y flwyddyn. Da iawn Betsan, llongyfarchiadau mawr iawn i ti ar dy lwyddiant cenedlaethol a phob dymuniad da yn cynrychioli Cymru.



Ar Noswyl Calan priodwyd Gemma Hope o Gwmann a Trystan Potter o Gwmsychpant yn Eglwys San Pedr, Llambled.

Pob dymuniad da i chwi i'r dyfodol.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost

*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@lois_wms
Mawrth 21

Adran **@Urdd**
#Llambled yn ymarfer
yn yr haul.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Mawrth 18

Aelodau diwyd yn
Arwerthiant Aberduar
#Llanybydder.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Mawrth 20

SYM Coedmor yn
croesawu Grŵp Teifi a
@Owen_Garry.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ElinLifestyle
Mawrth 6

Ma **@cfillanwenog** AR
Y FFOR i'r Grand yn
Abertawe i **#gwleddyfc**

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CFfiCwmann
Mawrth 6

Pawb wedi joio yn
noson cawl heno!
Diolch i Eirwyn, Bryan
a staff Castle Green!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Craffwr
Chwefror 22

Gêm gyfartal rhwng
@LampeterTownRFC a
@clwbrygbicne dan 16

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Ebrill a Mai
e-bost: Delyth Phillips, Llety Clyd, Llanbed
golygydd@clonc.co.uk 422992

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590

e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llanbed Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349

e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambod 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

• Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.

• Gwerthfawrogrir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

• Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

• Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.

• Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk

• Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.

• E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk

• Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk

• Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc.

Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.

• Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.

• Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

O Steddfod i Steddfod

Dathliadau Gŵyl Dewi, eisteddfod ysgol, eisteddfodau cylch, eisteddfodau sir, dawnasio gwerin, canu, adrodd, sioe gerdd, cân actol, alaw werin, cerdd dant, parti unsain ... P'run ai eich bod chi'n dwlu ar draddodiadau diwylliannol Cymraeg a Chymreig o'r fath neu'n eu casáu, mae'n anodd i chi ddianc rhagddyn nhw! Bob wythnos trwy gydol mis Mawrth rydym wedi gweld yn y papurau newydd lleol fel y Cambrian News a'r Carmarthen Journal doreth o luniau o blant yn eu gwisg Gymreig yn dal tystysgrifau a chwpanau a thariannau mewn pob math o steddfod - a dyw'r rhifyn hwn o Clonc ddim yn eithriad chwaith!

Mae traddodiad yr eisteddfod fel marmite, mae'n siŵr. Mae 'na rai sy'n byw er ei fwyn, eraill yn ei gasáu. Ond mae'n wir i ddweud bod ein heisteddfodau yn rhoi llwyfan (yn llythrennol) i blant ddatblygu sgiliau pwysig - hyder a'r gallu i berfformio'n gyhoeddus. Mae'n gwneud lles i ddysgu plentyn i fod yn gystadleuol, ac mae dysgu colli hefyd yn wers bwysig.

Ches i mo fy magu ar aelwyd gerddorol nac eisteddfodol, ond oherwydd cymaint o'n i fel plentyn yn dwlu ar ganu, adrodd a chwarae'r piano fe dreulies i a mam (a mam-gu yn aml iawn) sawl Sadwrn mewn gwahanol eisteddfod. Doedd mam yn bendant ddim yn 'fam eisteddfodol' - byddwn i wedi trengi petai wedi gwneud swache arna'i o'r gynulleidfa! Ond un peth pwysig ddywedodd hi oedd y byddai'n stopio mynd â fi i eisteddfota petawn i'n cwyno pan fyddwn i'n colli. A do, fe golles i mwy na fy siâr, ond mae'n dda dweud i ni barhau am flynyddoedd lawer ar ein teithiau o steddfod i steddfod!

Dymuniadau gorau i bawb yn eisteddfodau'r gwanwyn ac yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ac os na chaiff eich plentyn wob'r o'r fath yn y byd, anogwch nhw ymhén amser i sylweddoli'u bod nhw wedi ennill sgiliau gwerthfawr, achos does neb yn licio collwr gwael.

Cloncen



Colofn Cefn Cwlad gan Helen Howells

Un wennol ni wna wanwyn

Ers amser mae'r wennol yn gysylltiedig â dyfodiad y gwanwyn a'r gobaith am ddyddiau golau. Ac er mor falch ydw i'n gweld ei dychwelyd yn arwyddocaol o ddechrau'r dyddiau hirion, y mae gennyf galon drom wrth ei gweld yn ymadael ac yn mynd â'r heulwen gyda hi ar ei thaith. O na bawn i fel y wennol, yn gallu dilyn yr haf o un pen y byd i'r llall, ac osgoi tywyllwch y gaeaf. Ond trwy osgoi tywydd y gaeaf yma ym Mhrydain y mae'r wennol yn cyflawni un o deithiau mwyaf epig byd natur. Mae'n hedfan dros fynyddoedd, moroedd ac anialdiroedd o Dde'r Affrig yma i ddychwelyd i Brydain i nythu ac i fagu cywion. Ac i feddwl fod yr aderyn pitw yma, nad yw'n pwyso mwy na bocs matsys, yn cyflawni'r daith anferthol yma, nid unwaith, ond ddwywaith y flywyddyn.

Wrth gwrs, nid pawb sy'n ymestyn yr un croeso i'r wennol. Roedd yn gas gan fy rhieni a fy nhad-cu y baw yr oeddynt yn gwneud wrth nythu yn y bondo ac yr oeddynt hyd yn oed yn mynd i'r drafferth o glymu 'bunting' neu hen gryno-ddisgiau i'r 'fascias' i geisio'u hatal rhag nythu. Ond gyda fy rhyfeddod at allu rhywbeth mor fach i gyflawni rhywbeth mor fawr, maen nhw wedi ennill fy mharch ac yn cael llonydd i nythu yn sgubor Tycam. Ac yn fy atgoffa fod gennym ni i gyd y gallu i gyflawni gweithredoedd arbennig, hyd yn oed os ydym yn teimlo'n fach.

Mae ein gwybodaeth ni heddiw am yr aderyn bach yma'n deillio o weithgareddau amaturiaid ar droad y ddeuddegfed ganrif. Cyn hynny doedd gan neb syniad beth oedd yn digwydd i adar oedd yn mudo yn ystod y gaeaf. A fyddai neb wedi dychmygu y byddai'r wennol yn teithio mor bell - 6,000 o filltiroedd mewn mater o 27 diwrnod, weithiau mewn llai. Hyd nes hedfanodd wennol John Masfield nôl i Loegr. Cyfreithwr oedd John Masfield ac arweiniodd ei ddiddordeb brwd ym myd natur iddo wirfoddoli i fodrwyo adar. Ym mis Mai 1911, rhoddodd fodrwy alwminiwm, rhif B830, ar goes gyw o'r nyth yng nghyntedd ei dŷ yn Cheadle, Staffordshire. Newydd ddechrau'r arfer o fodrwyo adar yr oeddent ym Mhrydain ar y pryd, a phe byddai'n cael ei ddarganfod mewn mannau arall o'r byd byddai hynny'n nodi taith yr adar. Derbyniodd Mr Masfield lythyr wedi'i ddyddio 27ain o Ragfyr 1912, gan Mr C H Ruddock, perchennog y Grand Hotel, Utrecht, Natal, De Affrica. Ysgrifennodd fod ffermwr o'r enw Mr J Mayer wedi darganfod yr aderyn ar fferm ryw 18 milltir o'r llety gyda modrwy metal o amgylch ei goes â'r geiriau 'Wetherby, High Holbourn, London' ar un ochr, ac ar yr ochr arall 'B830'. Ychwanegodd Mr Ruddock fod ganddo hefyd ddiddordeb mewn adar o bob math ac y byddai yn falch o glywed fod y llythyr yma wedi cyrraedd y person a roddodd fodrwy ar y wennol.

Roedd gwybodaeth o'r fath yn syfrdanol yn yr oes honno. Roedd hi'n hollol anghredadwy y byddai'r wennol wedi gallu hedfan mor bell, ac o dynnu llinell syth o Brydain i Dde'r Affrig, yr oedd hi'n debyg iddi groesi anialdir maith y Sahara. Anhygoel! Nawr, gyda diolch i waith gwirfoddolwyr sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Brydeinig dros Adareg, rydym yn gwybod yn sicr fod y wennol yn croesi dros ugain o wledydd ar ei thaith, gan gynnwys Botswana, Niger, Morocco a Sbaen. Mae'r daith yn un beryg, gan nad yw'r wennol yn cryfhau ei storïau braster cyn cychwyn y siwrne ac yn bwyta wrth deithio. Ac mae'r daith yn un sy'n ddibynnol ar gryfder a stamina'r aderyn bach yn teithio dros 200 o filltiroedd y dydd, ac yn cyrraedd cyflymder o hyd at 35 milltir yr awr. Mae llawer yn llwgu wrth groesi'r Sahara ac mae nifer helaeth yn marw o ganlyniad i stormydd a blinder enbyd.

Mae taith y wennol yn un o ryfeddodau byd natur. Ac yn ein hatgoffa fod yna gwyrthiau i'w gweld bob dydd yn y byd o'n cwmipas, dim ond i ni edrych yn ddiagon manwl.



EBRILL

- 3 Gorymdaith Gwener y Grogolith trwy Llambled, dechrau 9.30y.b. yn Brondeifi.
- 5 Oedfa Gymun unedig yn Noddfa am 9.30 y.b.
- 5 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Groes, Llanwnnen. Plant a'r Ieuencid am 4 a'r Oedolion am 5.00y.p.
- 6 Taith Tractorau a drefnir gan Tom Lewis, Pencader yn cychwyn o Cross Roads, Llanllwni am 10.30y.b. Elw tuag at Ychwil Leukaemia.
- 7 Ymgynghoriad ar ddyfodol cartrefi preswyl Ceredigion yn Neuadd Ysgol Gyfun Bro Pedr 3.30 i 6.30yp.
- 8 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen, i ddechrau am 1.30y.p.
- 10 Dawns Dewis Swyddogion y Carnifal yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 5.00y.p.
- 10 CFFI Llanllwni yn cynnal Tipit yn Nhafarn Talardd, Llanllwni am 8.00y.h.
- 10 Noson Rasys Moch CFFI Cwmann yng Nghlwb Rygbi Llambled.
- 12 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant. Plant a'r Ieuencid am 4.00 a'r Oedolion am 5.00y.p.
- 13 Bingo Pasg yn cael ei gynnal yn Nhafarn Talardd Llanllwni am 8yh gan Gylch Meithrin Llanllwni.
- 13 Caligraffeg gan Ieuan Rees ym Merched y Wawr Llambled, yng 4 nghapel Shiloh am 7.30y.h.
- 13 Lansio Gwefan Cymunedol newydd Llanbed - Clonc360 yn y Clwb Rygbi am 7.30yh.
- 18 Côr Corisma yn Neuadd Coroniad Pumsaint gydag Aled Hall, Sara Mair, Carys Haf, Rhian Davies, Eirwyn Richards, Tudur Phillips, Deian Thomas, Mic a Moc am 7.30yh.
- 19 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul. Plant a'r Ieuencid am 4.00 a'r Oedolion am 5.00y.p.
- 19 Sioe Ffasiwn gyda Duet a Lan Llofft yn TyGlyn Aeron yn cynnwys te prynhawn am 2.00y.p. Llywydd: Helena Lewis, Penrhiw, Llandysul. Elw tuag at Motor Neuron. Tocynnau £12.50, ffoniwch Duet 422508.
- 22 Sgwrs gan Hazel Thomas Penpompren ar hanesion ardal Drefach am 8.00y.h yn Nhafarn Cefnhafod Gorsgoch. Trefnir gan Gynghrair Cymuned Ward Llanwenog. Croeso cynnes i bawb.
- 26 Taith Gerdded 3 milltir Sefydliad Aren Cymru yn dechrau gyferbyn ag Ysgol Carreg Hirfaen Cwmann am 10.30yb.
- 26 Cerddoriaeth fyw yn Llanfair Clydogau.
- 26 Gymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul. Plant a'r Ieuencid 2.00y.p. a'r Oedolion am 5.30y.p.
- 26 Rihysal Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr yng Nghapel Bethel Caio.
- 29 Merched y Wawr Llanbed yn ymweld â changen Cylch Aeron gyda'r Archdderwydd Christine James yn wraig wadd.

MAI

- 2 Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg. Cysylltwch ag Emyr Griffiths 01545 590383 neu Enfys Llwyd 01545 590295.
- 2 Rali CFFI Sir Gâr.
- 4 Calan Mai yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd.
- 8-9 Cyngerdd Tri Tenor Cymru yn Theatr Felinfach.
- 7-10 Recordir rhaglen Noson Lawen yn Llambled. Hysbyseb ar dud. 6.
- 12 **Pwyllgor Blynyddol CLONC yn Nhafarn Cwmann am 7.00**
- 15 Noson Goffi Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h.
- 17 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr, Caersalem Parcyrrhos am 2.30y.p.
- 23 Carnifal Cwmann ar gaeau'r pentref.
- 23 Noson Lawen i ddathlu 60 mlynedd Undeb Amaethwyr Cymru yn Neuadd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h. Tocynnau o swyddfa Llambled 422556.
- 24 Taith Tractorau Drefach. Gadael Caeau Maesyrnnon am 10.30. Elw tuag at Ambiwlans Awyr a Chlwb Cledlyn. Manylion pellach drwy ffonio Peter 01570 434342 neu Jeff 01570 481121.
- 24 Cymanfa Ganu'r Annibynwyr yn Shiloh, Llambled am 5.00y.h.
- 25 Arwerthiant Cist Car ym Mhumsaint 10yb - 1yp. £5 y car. Trefnir gan gangen Pumsaint o Sefydliad y Merched.

MEHEFIN

- 5 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.
- 6 Rali CFFI Ceredigion yn Llanddewi Brefi.
- 7 Gymanfa'r Rali yng Nghapel Bethesda, Llanddewi Brefi.
- 21 Cyngerdd yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi gan Gôr Clychau'r Fedwen am 7.30y.h. Elw tuag at y capel. Tocyn £5.
- 26 Rasys Sarn Helen yn Ysgol Felinfach.

GORFFENAF

- 4 Corisma, Cacen a Chên yn y Ganolfan, Cwmann am 2.00yp.

Clwb Clonc

Ebrill 2015

£25 rhif 351 :
Dafydd Lewis,
Pantmeiniog, Cwmann.

£20 rhif 242 :
Ceinwen Jenkins,
Ceulan, Maestir, Llambled.

£15 rhif 161 :
Olga Evans,
Coedparc, Heol Caerfyrddin,
Llanybydder.

£10 rhif 363 :
Ray Lewis,
Hafan, 18 Bro Grannell,
Llanwnnen.

£10 rhif 257 :
Eryl Jones,
Gorwel, Gorsgoch.

£10 rhif 306 :
Ceri Jones,
Hafod-yr-ŵyn, Gorsgoch.

£5 rhif 332 :
Mair Jones,
Brynsiriol, Llanllwni.

Gorsgoch

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Phillip, Shan, Manon a Gwion, Cynwyl-Elfed (Maesygar) ar golli mam, mam yng nghyfraith a mam-gu annwyl a pharchus iawn.

Tŷ Newydd

Dymuniadau gorau i Gethin a Sara yn eu cartref newydd, sef Penllain Gorsgoch.

Dathlu

Pen-blwydd hapus i Eiddwen Hatcher a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Enfys Hatcher ar gael ei hethol yn Frenhines CFFI Ceredigion. Disgwyl ymlaen at Rali Llanddewi Brefi nawr!

Llongyfarchiadau hefyd i Briallt Williams ac Iwan Evans ar fod yn rhan o dîm siarad cyhoeddus dan 16 Saesneg CFFI Ceredigion a ddaeth yn drydydd dros Gymru, ac i Enfys Hatcher am ennill y wobwr am siaradwr gorau'r gystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg dan 26 ac i'r tîm am ddod i'r brig hefyd.

Da iawn i Nia Morgans, Glwydwern, am gipio'r ail wobwr yn yr unawd cerdd dant i flynyddoedd 5 a 6 yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau!

Pob Lwc

Pob lwc i Iwan Evans sy'n teithio i Awstralia i gynrychioli Cymru yn y tîm rygbi cyffwrdd cymysg. Tipyn o gamp! Cer amdani Iwan i roi Gorsgoch ar y map!

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

TEIARS
BRICS
BATRI
GWADAU

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau haearn ac hefyd eich holl waith weldio ac atgyweirio

Mwnici ffwnci

Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu a ffensio o bob math Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau

Campws Iau Ysgol Bro Pedr

Cynhaliwyd eisteddfod y Campws Cynradd ar Chwefror 27 a chafwyd diwrnod o gystadlu brwd gyda phob disgybl o'r lleiaf hyd yr hynaf yn cymryd rhan. Ein beirniaid eleni oedd Mr Huw a Mrs Elizabeth Jenkins a hyfryd oedd cael eu croesawu yn ôl atom a diolch iddynt am eu gwaith diflino nid yn unig yn beirniadu'r canu, llefaru a'r dawnsio ond hefyd y gwaith celf, llawysgrifen a'r storïau.

Y Côr buddugol yn y bore oedd Pedr gyda Sara Jones yn eu harwain, Dewi yn ail a'u harweinydd oedd Tomos Lloyd Jones a Steffan yn drydydd dan arweinyddiaeth Kaycee Harkess. Ar ddiwedd Eisteddfod y Cyfnod Sylfaen tŷ Steffan oedd ar y blaen gyda 60 o farciau (Capteiniaid Erin a Taylor), gyda Pedr yn ail a 58 o farciau (Capteiniaid Niamh a Kondrad) a Dewi yn drydydd gyda 56 o farciau (Capteiniaid Lexie a Mason). Agos a chyffrous iawn felly wrth symud at yr Adran Iau yn y prynhawn.

Yn y gystadleuaeth ddawnsio disgo tŷ Dewi ddaeth i'r brig a Phedr yn ail gyda Steffan yn y trydydd safle. Bu corau'r Adran Iau yn canu'r Anthem Genedlaethol a tŷ Pedr oedd yn fuddugol dan arweinyddiaeth Anthony Cassiday, Dewi'n ail gyda Kacper Paszek yn arwain a Steffan yn drydydd dan arweinyddiaeth Nathan Charles Davies.

Ar ddiwedd y prynhawn roedd y marciau terfynol yn agos tu hwnt gyda Dewi'n ennill yr eisteddfod gyda 165 o farciau – Capteiniaid Leah Hargreaves a Filip Poczatek, Is-gapteiniaid Tegan, Jessica ac Ifan, Pedr yn yr ail safle 163 o farciau Capteiniaid Nia Beca Jones a Connor Jones ac Is-gapteiniaid Sioned ac Anthony, a Steffan yn y trydydd safle 134 o farciau Capteiniaid Catrin Lewes a Nathan Charles Davies, Is-gapteiniaid Zoe, Annabella a Danny.

Cipiwyd y cadeiriau am ysgrifennu storïau Cymraeg gan:

Blwyddyn 2: 1af Sion-Ifan Williams, 2ail Caitlin Gately, 3ydd Osian Young. Blwyddyn 3: 1af Regan Jones, 2ail Rhun Davies, 3ydd Brynmor Gibbons. Blwyddyn 4: 1af Niah Bouvet, 2ail Ffion Davies, 3ydd Ifan Meredith. Blwyddyn 5: 1af Lisa Jones, 2ail Jodie Evans, 3ydd Catrin Daniel. Blwyddyn 6: 1af Nia Beca Jones, 2ail Sioned Davies, 3ydd Jessica Mc Donagh.

Cipiwyd y cadeiriau am ysgrifennu storïau Saesneg gan:

Blwyddyn 2: 1af Oskar Paszek 2ail Isaac Killick 3ydd Cai Allan. Blwyddyn 3: 1af Elizabeth Foot, 2ail Jake Jones, 3ydd Immanuel Ologun. Blwyddyn 4: 1af Tilly Killick, 2ail Harvey Philippott, 3ydd Kai Moore. Blwyddyn 5: 1af Austin Thomas, 2ail Laura Jones, 3ydd Daniel Farr. Blwyddyn 6: 1af Liberty Yospa, 2ail Esme Kavanagh, 3ydd Tegan Miles.

Diolch i'r disgyblion i gyd am berfformio gyda graen, i'r staff am baratoi'r plant mor drylwyr, i Faer a Maeres y dref sef y Cynghorydd Elsie Dafis a Mrs Elizabeth Williams a Mrs Rhian Evans Cadeirydd y Llywodraethwyr am eu presenoldeb ac am gyflwyno cwpanau a thariannau i'r buddugwyr. Diolch yn arbennig i Mr Wyn John a'i dîm am drefnu a choladu'r gwaith, i Miss Sandra Davies am gyfeilio, i Mrs Collom a'i thîm am greu'r bathodynau, i Mrs Pryce am argraffu'r rhaglen, ac i staff y Gegin ac Idwen am hwyluso'r trefniadau. Pleser oedd cael gwylio'r holl ddisgyblion yn perfformio trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i ni ddathlu Gwyl ein Nawddsant.

Llwyddodd tîm dawnsio disgo'r ysgol, y tîm cyfrwng cymysg a Filip Poczatek i ennill yn yr Eisteddfod Gylch a phob hwyl iddynt yn y Sir. Diolch i Sally Saunders am ei gwaith yn eu paratoi ac i Anita Evans am gynorthwyo gyda'r gwisgoedd. Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch: Llefaru i ddysgwyr bl 2 ac iau 1af Kyna Logan, 2ail Drizzle Thomas, Unawd bl 5 a 6 1af Sioned Davies, 2ail Nia Beca Jones, Llefaru bl 5 a 6 1af Sioned Davies, Deuawd bl 6 ac iau 1af Nia Beca a Sioned, Alaw Werin bl 6 ac iau 3ydd Sioned Davies, Llefaru i ddysgwyr bl 3 a 4 1af Nikola Jablonska, 2ail Elizabeth Foot, Llefaru i ddysgwyr bl 5 a 6 1af Julia Nagy, 2ail Austin Thomas, 3ydd Wiktorina Sliwka, Parti unsain yr ysgol 1af, Parti Deulais yr ysgol 1af, Cerdd Dant bl 5 a 6 2ail Nia Beca Jones.

Diolch i bawb sydd wedi bod yn hyfforddi, i Lowri Jones o'r chweched dosbarth am ddysgu ac arwain y parti unsain ac i Sandra Davies am ei gwaith yn cyfeilio.

Yn Eisteddfod Sir yr Urdd cipiodd Sioned Davies y drydedd wobr yn yr unawd piano, Austin Thomas yn drydydd ar yr unawd llinynnol ac Anthony, Sioned a Nia yn drydydd ar yr ensemble offerynnol. Llongyfarchiadau i chi gyd a diolch i Mrs Helen Williams am gyfeilio.

Bu nifer o'r disgyblion yn llwyddiannus hefyd yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd. Tyfu a ffynnu oedd y thema eleni a llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a ddaeth i'r brig:

Dewi Dudley 1af Argraffu bl 5 a 6, Fflur Meredith 2ail Gwehyddu

bl 2 ac iau; Lowri Meles James Evans 1af Graffeg cyfrifiadurol bl 2 ac iau, 1af Cyfres o brintiau monocrom bl 2 ac iau, 3ydd Gwehyddu bl 2 ac iau, 2ail Penwisg bl 6 ac iau. Ifan Meredith 1af Gwaith Creadigol 2D Tecstilua bl 3 a 4, 1af Gwehyddu bl 3 a 4, 2ail Gemwaith, 2ail Dylunio a Thechnoleg.

Daeth cwmni theatr Arad Goch i'r ysgol i berfformio "Oes rhaid i mi ddeffro?" a chafwyd orig ddifyr iawn yn eu cwmni a'r plant wrth eu bodau yn cael rhwyngweithio gyda'r actorion. Bu camerâu S4C yn ffilmio darnau o'r sioe a gwelwyd rai o'r plant a Mrs Young yn siarad am y perfformiad ar Newyddion S4C – sêr y teledu!

Yn Eisteddfod Ddawns y cylch fe gipiodd yr ysgol dair wobr gyntaf. Llongyfarchiadau mawr i Filip Poczatek, y grŵp dawnsio disgo a'r grŵp dawnsio cyfrwng cymysg a diolch o galon i Mrs Sally Saunders am roi o'i hamser i'w hyfforddi ac i Mrs Anita Evans am gynorthwyo gyda'r gwisgoedd. Bu Sioned Davies, Nia Beca ac Anthony Cassiday mewn dosbarth arbenigol llinynnol yn Aberystwyth yn ddiweddar a chael bore hwylus dros ben.

Bu disgyblion blynyddoedd 3 a 4 yn ymweld â siop Sainsbury's yn y dref er mwyn edrych ar brisiau a chynhwysion nwyddau yn ogystal â masnach deg fel rhan o'r thema'r tymor hwn. Diolch i staff Sainsbury's am y croeso twymgalon ac i Mrs Iona Roberts am drefnu. Cafodd blynyddoedd 1 a 2 gyfle i ymweld â'r Orsaf Ambiwylans a diolch yn fawr iawn i Mr Huw Davies a'r staff am y croeso a'r cyflwyniad diddorol ac i Mrs Young am drefnu.

Ar ddiwrnod y trwyn coch casglwyd £375 yn y campws iau trwy wisgo dillad coch a diolch i Mrs Anita Evans am goginio cacennau blasus iawn i'w gwerthu.

Yng nghystadleuaeth Sumdog mathemateg y Sir daeth blwyddyn 6 Arthur yn gyntaf a 6 Grannell yn drydydd – tipyn o gamp. Llongyfarchiadau i'r ddau ddosbarth ac i'r athrawon Mr Michael Davies a Miss Nicola Davies.

Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Traws gwlad Dyfed yn ddiweddar gan wneud yn arbennig o dda. Diolch i Mr Roderick am drefnu'r achlysur. Bu nifer o'n hofferynwyr yn perfformio mewn cyngerdd yn Aberaeron. Llongyfarchiadau i Ifan, Grace, Emily, Nikola, Niah, Wiktorina, Liberty, Nia Beca, Austin a Taidgh am wneud eu gwaith mor dda, a diolch i athrawon peripatetig y sir am hyfforddi'r disgyblion.



Yng ngala nofio'r cylch cipiwyd y darian gan ddisgyblion yr ysgol a bu'r canlynol yn llwyddiannus fel unigolion: Jessica McDonagh 1af dull rhydd, Rhys Tom Williams 1af dull rhydd a dull broga, Evie McKay 1af dull cefn a dull broga, Danny Shore 1af dull cefn. Diolch i Mr John am drefnu ac i Mrs Claire Davies am ei chymorth. (Roedd Connor yn absennol o'r llun).

Ysgol Bro Pedr – Campws Hŷn

Cynhaliwyd cystadleuaeth traws gwlad ysgolion Cymru yn Aberhonddu ddydd Mercher, Chwefror 11eg. Bu chwe disgybl yn cystadlu a gwneud yn arbennig o dda. Merched hŷn: Caitlin Page 6ed. Ffion Quan 10fed. Merched canolradd: Grace Page 52ain. Merched blwyddyn 7: Beca Roberts 6ed (mae Beca wedi cael ei dewis ar gyfer mini marathon Llundain). Bechgyn blwyddyn 7: Llew James 20fed.


Yn dilyn cyfnod prysur o gystadlu dros fisoedd y gaeaf, cafodd pedair o ferched bro Clonc, sef Ffion Quan, Grace Page, Caitlin Page a Beca Roberts, eu dewis i gynrychioli tîm Gorllewin Cymru yng nghystadleuaeth trawsgwlad Prydain yn Cofton Park, Birmingham ar ddechrau mis Mawrth - tipyn o brofiad! Llongyfarchiadau i chi ferched - daliwch ati!





Llongyfarchiadau mawr i Bryn Janes o flwyddyn 7 sydd wedi ennill yr ail a'r trydydd safle mewn cystadleuaeth nofio rhanbarth Ceredigion gyda'r Urdd cyn y Nadolig. Da iawn ti!

a dydd Gwener Chwefror 13eg bu'r 'Lab in a Lorry' gyda ni yn yr ysgol. Cafodd disgyblion blwyddyn 7 ac 8 gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o arbrofion gwyddonol. Mae'r lorri wedi ei rhannu'n dri lab gwahanol sy'n delio â gwahanol agweddau o ffiseg. Yn ystod eu hymweliad caiff y disgyblion gyfle i siarad ac i holi cwestiynau i'r gwyddonwyr sy'n gwirfoddoli yno. Nod y rhaglen a drefnir gan y Sefydliad Ffiseg a Llywodraeth Cymru yw hybu diddordeb plant a phobl ifanc mewn gwyddoniaeth yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan: www.labinalorry.org.uk



Ar 24ain o Chwefror aeth pum disgybl o Ysgol Bro Pedr - Llio, Mererid, Aisvarya, Huw a Jaxom - i stiwdio'r BBC yn Llundain, i ddangos y camera robotig adeiladodd aelodau'r grŵp technegol llynedd. Fe greodd argraff mawr gyda'r gweithwyr, yn enwedig Huw Edwards, cyflwynydd newyddion. Cafwyd cyfle i siarad â Chris Cook hefyd, sef cyfarwyddwr arweiniol y stiwdio; roedd ei syniadau a'i gyngor yn ddiddorol iawn. Yn ystod y dydd cafwyd cyfle i ffilmio yn y stiwdio gyda dyn camera proffesiynol, creu 'voiceovers' a gweld y dechnoleg sy'n rheoli'r camerâu robotig yn y stiwdio. Roedd yn ddiwrnod arbennig.



Ddydd Iau, Mawrth 19eg, cynhaliwyd diwrnod adroddiad ysgol y BBC ar draws y wlad; bu'r disgyblion wrthi'n creu adroddiadau ysgrifenedig a chlipiau fideo am newyddion mawr y dydd. Gellir gweld y gwaith ar wefan yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb oedd wrthi'n helpu ar y dydd, yn enwedig Huw, Max, Jaxom, Billie, Mivi, Marek, Dale a Rhiannon o'r chweched am helpu a mentora'r disgyblion.

Bu Mawrth yn fis prysur tu hwnt yma yn Theatr Felinfach gydag amrywiol weithgareddau, yn eisteddfodau a sioeau. Cynhaliwyd Eisteddfod Offerynnol Ranbarthol Ceredigion, Eisteddfod Cylch Aeron ac Eisteddfod Ddawns Ranbarthol. Erbyn hyn mae'r Eisteddfodau Rhanbarth wedi'i chynnal felly dymuniadau gorau i'r rhai fydd yn cynrychioli Ceredigion yng Nghaerffili fis Mai.

Mae'r Clwb Gwnïo yn hynod boblogaidd. Mae'r cyfnod cyntaf o wersi bellach wedi dod i ben, ond bydd cyfres arall yn cael ei chynnal wedi'r Pasg, felly os oes gennych ddiddordeb i ymuno, cysylltwch ag Anneliese ar 01545 572365 / 01570 470697 / anneliesem@ceredigion.gov.uk

Bydd Cwmni Dawns Iau a Chwmni Dawns Ieuencid Ceredigion yn perfformio gwaith wedi'i seilio ar ddarn o farddoniaeth T Llew Jones nos Iau, 2 Ebrill yn Theatr Felinfach am 7:30y.h.

Mae'r sesiynau Cloccio oedd yng ngofal Morys Ioan a Catherine Young bellach wedi dod i ben tan yr Hydref, ond bydd clwb drama Cymraeg newydd yn cychwyn ar ôl gwyliau'r Pasg ar gyfer plant 7-11 oed. Bydd DRAMATIC! yn addas i bob plentyn ac yn cychwyn nos Fercher, 15fed Ebrill ac ymlaen bob nos Fercher wedi hynny yn ystod y tymor ysgol. Bydd bysiau yn casglu'r plant o'r ysgol a'u cludo i Theatr Felinfach erbyn 4:00yp ac yna'n eu dychwelyd i'r ysgol ar ôl i'r sesiwn orffen am 5:00yp.

Rydym wedi cael cyfres o sioeau arbennig yma'n ystod y mis gan gychwyn gyda Tudur Owen a'i sioe newydd 'Pechu' nos Sadwrn, 7 Mawrth. Roedd hi'n noson wych gyda llawer iawn o chwerthin, yna'r nos Wener ganlynol, y sioe hir-ddisgwyliedig Grav. Perfformiad hollol wefreiddiol gan Gareth John Bale a'r Theatr yn llawn. Yna nos Wener, 20fed Mawrth cafwyd mwy fyth o chwerthin yng nghwmni'r Harri-Parris a'u sioe The Big Day. Arbennig iawn a hiwmor cefn gwlad yn disgleirio. Perfformiad mwy difrifol i gwblhau'r mis prysur gan Theatr Pena ag addasiad Saesneg Siôn Eirian o ddrama Siwan gan Saunders Lewis. Perfformiadau gafaalgarg a chofiadwy gan actorion profiadol.

Cofiwch fod gwaith adnewyddu yn digwydd yn y Theatr yn ystod mis Ebrill i wella'r gofod rhwng y coesau yn yr awditoriwm yn ogystal â gosod seddi newydd. Byddwn yn ail agor nos Wener a nos Sadwrn, yr 8fed a'r 9fed o Fai, gyda chyngherddau egsgeliwsif Tri Tenor Cymru.

Beth sy' mlaen yn y Theatr?

7/4/15 - PUMP CYNNIG I GYMRO – drama ddiweddaraf Cwmni Theatr Bara Caws.

8/4/15 – Gwaith yn cychwyn ar brosiect y seddau yn yr awditoriwm.

8 a 9/5/15 – Tri Tenor Cymru – dwy noson egsgeliwsif i Theatr Felinfach.

15/05/15 – Hiraeth – drama sy'n ymchwilio i'r dirywiad mewn traddodiadau a hunaniaeth Gymreig trwy frwydr un ferch i ddianc a thorri'n rhydd.

Bydd **NOSWEITHIAU LLAWEN**
yn cael eu cynnal yng

NGHANOLFAN HAMDDEN
LLANBEDR PONT STEFFAN

NOS IAU, NOS WENER, NOS SADWRN, NOS SUL
7/8/9/10 MAI 2015

Nosweithiau i ddechrau am 7:30pm

Gydag Ifan Jones Evans, Elen Pencwm, Ifan Gruffydd, Aled Rees, Dafydd Iwan, Gwawr a Dafydd Edwards, Gwenda a Geinor, Elin Manahan Thomas, Trystan Llyr, Meinir Gwilym, Gwenan Gibbard, Ryland Teifi, Catrin Aur, Deiniol Wyn Rees, Corau Meibion Cwmann ac Aberystwyth, Bois Ceredigion, Côr Ffermwyr Ifanc Pontsian, Côr Ysgol Gerdd Ceredigion, Adran yr Urdd, Llambod, Ysgol Dyffryn Teifi a nifer o artistiaid lleol eraill.

Tocynnau ar gael gan Swyddogion Papur Bro CLONC, Siop Y Smotyn Du, Gemwaith Rhiannon, Siop Gomerian neu drwy ffonio CWMNI DA 01286 685 300

Bydd y nosweithiau'n cael eu recordio ar gyfer S4/C gyda'r elw i gyd tuag at achosion da lleol

Hunangofiant Hen Labrwr gan Tommy Williams, Altyblaca

Pennod 2

Wedi dibennu yn yr ysgol a minnau yn 14 oed mi es i weithio ar fferm Bwlchcastell yng Nghilcennin. Dyna'r arfer yr adeg honno, ac yn bwysicach falle, dyma gyfle hefyd i wisgo trowser hir am y tro cyntaf. Tom oedd enw'r meist'r ac Emily oedd enw'r feistres. Er mwyn cario fy nillad a phethau personol eraill, cefais y bocs oedd gan fy mam pan ddaeth hi i'r ardal i weithio fel land girl. Wedi cyrraedd y fferm aeth y meist'r a fi i'r ystafell ble rown i fod i gysgu. Hwn oedd cam cyntaf fy mywyd annibynnol a rhaid oedd dringo'r grisiau cerrig oedd tu allan yr adeilad a mewn i'r storws oedd â'i lond o lafur had. Roedd hyn dipyn yn wahanol i beth roeddwn wedi arfer ag ef adref! Y cyflog oedd £20.00 am y flwyddyn gyfan. Doedd dim siâp arnaf i odro ac o'r diwedd dwedodd y feistres nad oeddwn i'n ddigon da yn godro a ches yn lle hynny fynd i edrych ar ôl y babi. Digon gwael oedd y bwyd a weles i ddim menynd na siwgr tra bum i yno. I frecwast roedd lwmp o gig moch gwyn a bara, dim llawer gwell i ginio chwaith. Pan o'n i yn siarad â gwas y fferm drws nesaf, bwyd gwael oedd yno hefyd. Yr hyn roeddwn yn ei wneud oedd mynd ag ambell i wy o nyth yr ieir. Felly y gwnes i nes bod y feistres yn dechrau achwyn fod wyau yn mynd ar goll.

Hyd at hynny roeddwn bob Nadolig yn edrych ymlaen yn fawr at ymweliad Santa. Dyma fore Nadolig yn cyrraedd a minnau fel arfer yn codi ac yn edrych ymlaen am yr anrhegion, a gweld bod dim byd yno. Dyna oedd anferth o siom. Gan taw fi oedd yr unig blentyn nid oedd mam a dad wedi dweud yr un gair wrthyf cyn hynny nad oedd Siôn Corn yn bodoli! Ta waeth am hynny, fe brynodd dad feic, un go anghyfarwydd achos roeddech chi'n galler pedlo tuag at yn ôl (back peddling). Ro'n i mor browd ohono ac fe fuodd gyda fi am flynyddoedd. Roedd hi'n amser prysur iawn ac ar y fferm roedd yna dda godro, defaid a thri cheffyl.

Tipyn o agoriad llygaid oedd y tymor cyntaf i blentyn 14 mlwydd oed. Roedd hi'n amser rhyfel ac ro'n i yn gorfod hau rhywfaint o lafur a tatws. Wrth hau llafur roedd y meist'r yn hau a minnau yn gorfod llyfnu ar ei ôl. Gwnaed hynny gan dri ceffyl a thri talp o oged. Ar adegau roedd hyn yn galed ac roeddwn wedi blino'n lân ac yn falch cael mynd i'r gwely ar ddiwedd yr holl waith. Byddem yn gosod tatws, ac yn yr haf roedd hi'n adeg cneifio. Y meist'r oedd yn cneifio a finnau yn troi'r peiriant achos taw un llaw oedd e a rhaid oedd troi yn weddol gyflym. O'n ni'n cadw mochyn ac roedd yn rhaid mynd â'r hwch at y ba'dd. Bydden ni yn cerdded â hi yno gyda lein am ei choes. Roedd yn daith tua tair milltir ar hyd yr hewl. Pryd hynny doedd dim llawer o foduron a ches i ddim llawer o drafferth. Bydden i yn gadael yr hwch am ryw wythnos ac yna wedyn mynd i'w nôl hi. Rwy'n cofio un tro, roedd y meist'r yn meddwl bod un o'r gwartheg yn pasio gwaed. Ges i bot jam a dilyn y fuwch am oriau yn ceisio cael y fuwch i basio dwr. Daeth dim llwyddiant o hynny.

Y flwyddyn gyntaf yno ges i salwch y frech goch ond ches i ddim mynd adre. Cyn bod y spots coch yn torri mas ro'n i yn eithaf tost. Roedd cronfa ddŵr ar y fferm – reservoir a oedd yn cyflenwi dŵr i Aberaeron. Roedd hyn cyn bod Llynnoedd Teifi.

Ar adegau gwahanol o'r flwyddyn roedd gwaith yn newid – cynaeafau gwair, llafur a thatws. Amser dynu byddai'n rhaid cario'r llafur lan y grisiau i fy ystafell wely.

Yr adeg yma o'r flwyddyn byddai'r ffermwyr yn gofyn i'r gweision a oeddent am aros yno i weithio am flwyddyn arall. Os byddai'r gwas yn aros yna byddai'r ffermwr yn rhoi arian iddo, yr hyn sydd yn cael ei alw yn ern. Dyma wrth gwrs adeg y ffeiriau a'r hyn oedd mor bwysig i weision a chyflogwyr y ffeiriau cyflogi. Byddai'r gweision wedyn yn cael gwyliau am bythefnos.

Rwy'n cofio am un ffermwr fyddai'n cadw tri gwas a morynion: ffermydd mawr oedd rheini. Mae yna ambell i stori dda ar gael fel y ffarmwr yn gofyn i'r gwas mawr a oedd yn mynd i aros am flwyddyn arall a dyma'r gwas yn ateb drwy ddweud "Na, mae'r bwyd yn rhy wael!" Yr un peth wedyn yn digwydd wedi iddo ofyn i'r ail was. Dyma'r ffermwr wedyn y gofyn i'r gwas bach "Beth wyt ti yn mynd i wneud?" Atebodd hwnnw "O! fi yn mynd i aros achos mod i yn rhy wan i fynd o'ma".

Mi ges i bythefnos o wyliau gyda nhad yn taro bargaen gyda'r meist'r am flwyddyn arall. Cyflog yr ail flwyddyn oedd £30.00 ond roedd y bwyd yn dal yr un mor wael o hyd. Mi ges i odro yr ail flwyddyn.

Roedd dau o blant gan y teulu, sef Lilian a Brian Evans. Mae'r ddau yn byw o hyd yng Nghilcennin.

Amser rhyfel roedd yr awdurdodau wedi rhoi peth help i ffermwyr gyda'r hyn y bydden nhw yn ei alw yn Warag. Byddai'r help ar gael i ladd gwair, aredig, torri llafur, ac roedd hyn yn help mawr i ffermwyr y cyfnod. O'n i ddim yn cael fawr o hwyl ar lwytho gwair rhydd i'r cert (roedd hyn cyn bod sôn am feler) ond fe ddes i lwytho llafur yn eithaf da.

Gwnes i gario ymlaen fel y flwyddyn cynt gyda fawr ddim newid i'r gwaith, ond ta beth, digon ffwdanus fuodd fy nwy flynedd gyntaf i o gartref. Beth bynnag fyddai'n dilyn, bu'n brofiad gwerthfawr ar gyfer y dyfodol. Buodd y beic gyda fi am flynyddoedd fel y cewch ddarllen nes ymlaen yn yr hanes yma.

Cyn ymadael ag ardal Cilcennin, hoffwn roi darlun i chi o'r pentref fel yr oedd hi bryd hynny. Roedd dwy siop yn y pentref, sef Y Commercial a Bryn, ysgol fechan yng nghanol y pentref, eglwys gyda mynwent y plwyf. Drws nesaf i'r ysgol roedd capel Seion, sef capel enwad yr Annibynwyr. Yno byddai fy nheulu i yn addoli ac yno y ces i fy nerbyn yn aelod. Gyferbyn â'r ysgol roedd Swyddfa Bost. Roedd Y Commercial wedi'i rannu yn ddau ran, yn dafarn ac yn siop oedd yn gwerthu pob peth gan gynnwys bwyd anifeiliaid. Dau frawd oedd yn ei gadw. Roedd Siop y Bryn ond yn gwerthu bwydydd ac oil lamp. Roedd un garej yn y pentref oedd yn riparo beics a thractorau dan berchnogaeth Handel Cae Madog. Roedd dau ran i'r pentref, neu gellid meddwl ei fod yn ddau bentref gwahanol – y pentref top a'r pentref isaf. Yn y pentref isaf roedd siop yn gwerthu tipyn o bopeth ac roedd yna felin yn gwneud carthenni o bob math ym mherchnogaeth Ben, Ffatri. Roedd yno hefyd gapel Wesle lle'r oedd cwrdd bob dydd Sul. Erbyn heddiw mae hwnnw wedi cael ei droi yn dy byw.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority", Rhif Cofrestru 615251.



**CELF I CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR**

**DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257**

**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

**Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau**

**CANOLFAN ADDURNO
AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
**3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156**

Llangybi a Betws



Ar Ddiwrnod y Llyfr, daeth Rala Rwdins i Ysgol Y Dderi! Roedd plant y Cyfnod Sylfaen wrth eu boddau yn clywed straeon difyr, yn chwarae gêm, yn canu ac yn dawnsio o dan ddylanwad hudolus Rala Rwdins.

Ysgol Y Dderi

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol gydag Eisteddfod. Cafwyd cystadlu brwd a roedd y plant i gyd yn eu gwisgoedd traddodiadol.



Uchafbwynt y diwrnod oedd seremoni y Cadeirio, gyda Tirion Lloyd yn sefyll ar ei thraed ar ganiad yr utgryn. Cyflwynwyd cadair o waith Mr Roger iddi am ei stori wych. Diolch o galon i Lena Daniel am feirniadu.

Bu llawer o'r disgyblion yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch, a daeth llwyddiant mawr i Cerys a Gruffydd.

Cynhaliwyd Cawl a Chân yn yr ysgol, i rannu talentau eisteddfodol y plant gyda rhieni a ffrindiau'r ysgol. Cafwyd noson hwylus dros ben gyda'r adloniant graenus a'r lluniaeth arbennig.

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r holl ddisgyblion fu'n cystadlu yng nghystadlaethau celf a chrefft yr Urdd yn ddiweddar. Enillwyd 30 o wobrau: 19 cyntaf, 6 ail, 5 trydydd! Bydd y gwaith buddugol yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerffili i gynrychioli Ceredigion.

Fel rhan o'r thema blwyddyn 5 a 6 "Bant a'i phen!", daeth Harri Tudur o Gwmni Mewn Cymeriad i gynnal sioe rhyngweithiol wych yn sôn am ei hanes, a chychwyn oes y Tuduriaid.

Diolch i Mari o Gwmni Theatr

Arad Goch am ei gwersi drama.

Fel rhan o'i thema Archfarnnadoedd, aeth y Cyfnod Sylfaen i Tesco Aberteifi. Bu'r plant yn dysgu am wahanol bysgod, bara, ffrwythau a llysiau o Gymru a dysgu llawer yn weithredol am archfarnnadoedd.

Fel rhan o Wythnos Rhyngwladol Gwyddoniaeth, bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn Theatr Felinfach yn mwynhau darlith "Gwyddoniaeth ac egni".

Diolch i Karen Roberts, Swyddog Diogelwch Tân, am ddod i siarad â phob dosbarth yn eu tro. Dysgodd y plant llawer am sut i gadw'n ddiogel a sut i ymddwyn mewn argyfwng.

Daeth Georgina Cornock-Evans, i gynnal gweithdy Telyn gyda disgyblion 1, 2, 3 a 4. Bu'n chwarae alawon traddodiadol, ac yn cyflwyno cerdd dant i'r disgyblion. Mae nifer o'r disgyblion yn derbyn gwersi telyn o fewn yr ysgol.

Croesawyd "Robert Recorde", sef y mathemategydd enwog o Ddinbych y Pysgod, i'r ysgol i gynnal gweithdy rhifedd gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Bu'r plant yn datrys posau rhifyddol dan gyfarwyddyd bywiog "Robert Recorde".

Fel rhan o'u thema "Asiantaethau teithio", aeth blwyddyn 3 a 4 i Aberystwyth i ymweld â'r Ganolfan Dwristiaeth, yr Amgueddfa Werin a Rheilffordd y Graig.

Cafwyd llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir yr Urdd yn Bont. Llongyfarchiadau i Cerys Angharad am ddod yn ail yn yr unawd Blwyddyn 2 ac Iau ac yn yr Unawd Cerdd Dant. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Gruffydd Llwyd Dafydd ar ddod yn fuddugol yng nghystadlaethau Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 3 a 4. Bydd Gruffydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili. Pob lwc iddo.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Dion Teilo Olmarch yn yr eisteddfodau isod. Cennarth: 1af am ganu ac ail am adrodd (6-8oed). Dihewyd: 2ail am ganu emyn a cherdd dant o dan 12 oed, 3ydd yn yr Alaw Werin dan 12 oed, 3ydd am ganu unawd a 3ydd am adrodd 6-8oed. Ciliau: 1af am ganu ac ail am adrodd (6-8 oed).

Capel Maesffynnon

Cynhelir Cyngerdd yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi nos Sul, Mehefin 21ain gan Gôr Clychau'r Fedwen am 7.30y.h. Elw tuag at y capel. Mynediad £5.

Hamdden

Cyfarfu'r aelodau yng Nghlwb Golff Cilgwyn i ddathlu Gŵyl ein Nawdd Sant, ac yno cawsom groeso cynnes mewn awyrgylch braf a golygfeydd hyfryd o'n cwmpas. Roedd blas y cawl yn hyfryd ac felly hefyd y pwddin a'r paned o de neu goffi a phice bach i orffen y pryd. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r cogydd a'i gynorthwywyr am fwyd bendigedig a'r gwasanaeth ardderchog gan Dilys Godfrey, y llywydd.

Cafwyd gwybodaeth am y Trip Dirgel – enwau i Sally Davies.

Enillwyd y Raffl gan Glenys Davies, Rowena Williams, Glenys Lloyd, Maureen Williams, Morina

Davies, Ethel McLoughlin, Sally Davies, Gwen Lewis, Mair Morgan a Barry Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf, sef y Trip Dirgel, brynhawn Iau, Ebrill 9fed, yn dechrau o Lamed am 1.00y.p ac yna yn galw yng Nghwmman a nôl i Langybi.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mr a Mrs Dilwyn Pugh, Bro'r Felin yn eu profedigaeth o golli chwaer a chwaer yng nghyfraith, ac hefyd â theulu Blaenwern yn eu hiraeth o golli modryb, ac â holl deuluoedd cysylltiedig a'u ffrindiau.

Yn yr ymmodd, cydymdeimlir ag Allan Jones, Hengoed, yn ei brofedigaeth ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith.

Merched y Wawr Y Dderi

Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn y Pantri fel arfer ac yno cawsom groeso cynnes, cwmni diddan a gwledd fendigedig. Y gŵr gwadd oedd y Bon. Gareth Jones – gŵr adnabyddus iawn i lawer yn yr ardal yma. Cawsom anerchiad diddorol a hanesyddol ganddo; bu'n traddodi ar hanes y bardd bregethwr o Rydaman, Nantlais. Rydym yn canu rhai o'i emynau yn aml ac wedi dysgu ychydig o'i farddoniaeth pan yn blant, ond heb sylweddoli mai Nantlais oedd yr awdur. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r gŵr gwadd am noson bleserus ac addysgiadol gan y Llywydd, Gwyneth Jones, a hi hefyd ddiolchodd i Delyth Jones am yr ymborth bendigedig – y cawl blasus a'r amrywiaeth o bwddin.

Rhoddwyd gwobrau raffl gan Gwyneth Jones, Margaret Davies-Jones ac Irene Lewies ac fe'u henillwyd gan Iris Quan, Mair Spate a Deborah Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol y Dderi am 7.00y.h. ar Ebrill 15fed pryd y disgwylir Dr Sion James i'n hannerch.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwv

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologlofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Pencarreg

Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant i ran Heiddwen
Tomos, Dol mebyd yn ystod y
mis pan enillodd Wobr Stori Fer
Talesin a BBC Radio Cymru gyda'i
stori 'Cathe'. Mae Heiddwen yn
ennill gwobr ariannol o £1,000 ac
mae ei stori yn ymddangos yn ei
chyfanrwydd yn rhifyn Gwanwyn o
Talesin. Da iawn ti Heiddwen.

Gwellhad

Yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty
Treforus dymunwn groeso adref i
Gruffydd John, Derlwyn. Da deall
eich bod yn gwellha.

Croeso adref

Croeso adref i Audrey Evans,
Blaencarreg ar ôl treulio tri mis yn
Ysbyty Glangwili.
Braf yw deall eich bod ar wellhad
ac yn cael gofal tyner a gofalus
gyda'r teulu.
Newydd da yn wir.

Diolch

Dymuna Gruffydd John, Derlwyn
ddiolch yn fawr i'w gymdognion,
ffrindiau ac i bawb am y cardiau a'r
galwadau ffôn yn dymuno gwellhad
buan iddo.

Cellan

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Mrs Mary Jones,
Hafan yn teimlo'n well erbyn hyn
gan iddi dreulio ychydig amser yn
Glangwili yn ystod mis Mawrth.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys gyda
theulu'r diweddar Melfyn Evans,
Tyncoed a fu farw yn ysbyty
Glangwili yn ystod y mis. Preifat
fu'r angladd yn Nghapel Bethel,
Farmers.

Alltyblaca

Cydymdeimlad

Cofiw'n am Edwina Lewis a'r
teulu oll ym Mro Teifi yn dilyn
eu profedigaeth lem gan golli nith
a chyfnither, Hawys Williams o
Fwlch-llan, a hithau ond yn 24 oed.

Rhifyn mis Mai

Yn y Siopau Mai 7fed
Erthyglau, Newyddion
a Llundiau i law erbyn
Ebrill 27ain

Mis y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Mwy na DNA

Dw i ddim yn siŵr iawn i bwy yr ydw i'n perthyn. Mae'r busnes DNA
a genynnau yn dechrau fy mhoeni fi.

Yn ôl ymchwil go iawn i'r maes – nid y stwff gor-boblogaidd oedd
ar S4C – ni'r Cymry sydd fwya' tebyg i drigolion gwreiddiol gwledydd
Prydain.

Ar y llaw arall, mae'n debyg nad oes yna fawr yn gyffredin – o ran
genynnau – rhwng pobol y Gogledd a phobol y De. Mae yna fwy o
debygrwydd rhwng Saeson ac Albanwyr – David Cameron ac Alex
Salmond.

Lle mae hynny'n fy ngadael i, oedd â thad yn dod reit o ganol Cymru,
o fewn rhyw hanner milltir i'r ffin rhwng Sir Drefaldwyn a Cheredigion?
Ac o leia' un hen, hen, hen fam-gu yn dod o rywle fel Penrhyncoch.

Ar ben hynny, dw i'n gwybod i sicrwydd mai Saesnes oedd fy hen fam-
gu (hen nain i fi wrth gwrs) ... ond, wedi meddwl, efallai mai Iddewes
oedd hi.

Yn ôl Mam, mae yna waed sipi ynof fi yn rhywle hefyd – un o deulu
Abraham Wood neu ei debyg wedi bachu un o fy nhylwyth i rhywle tua
Betws Gwerfyl Goch, ardal Trebor Edwards.

Yn ôl stori yn rheulu Dad wedyn, roedd rhyw gyndadau wedi dod i
lawr o'r Alban a, diolch byth, roedden nhw'n rhyw fath o dywysogion. A
Walters oedd yr enw.

Yr unig broblem gyda hynna, wrth gwrs, yw y gallwn i fod yn perthyn i
David Cameron ond gobeithio ei fod o'n dod o ryw ardal arall.

Yr unig beth yr ydw i'n ei wybod i sicrwydd ydi fy mod i wedi fy ngeni
yng Nghymru, fy mod i'n siarad Cymraeg ac yn teimlo'n Gymro ... beth
bynnag ydi ystyr hynny.

Felly, y casgliad cynta' o hyn i gyd ydi fod yr holl beth yn profi mai
nonsens ydi meddwl am genedl a pherthyn yn nhermau gwaed. Yr ysbryd
ac awydd sy'n bwysig.

Ac, yn hynny, yn rhyfedd iawn, y mae'r gobaith. Fel arall, mi fyddai
wedi canu arnon ni, wrth i ni gael ein boddi gan bobol sy'n dod o lefydd
gwahanol iawn. Gobaith, a her.

Yn ystod y misoedd diwetha', dw i wedi cael rhyw ychydig o flas o
fod yn ddiethryn a hynny, eto, am y rhesymau gorau posib. I Gynghrair
Cymuned Llanwenog y mae'r diolch am hynny.

Mi ddylai pawb ym mhlwyfi Llanwnnen a Llanwenog fod yn dod i'r
cyfarfodydd, lle mae pobol leol yn rhoi sgysiau am hanes yr ardal a,
lawn mor bwysig, lle mae pawb yn aros i sgwsio wedyn a hel atgofion.

Yn anffodus, tydi atgofion am Ddolgellau a Waunfawr a Chaernarfon
ddim lot o iws ac, ar ben hynny, tydi rhai o enwau'r cymeriadau a'r
ffermydd yn golygu dim i fi. Ond, diawcs, mae o'n ddiddorol.

Dw i wedi sôn o'r blaen am y teimlad o weld map yn dod yn fyw
o'ch cwmipas chi wrth gerdded; profiad felly ydi gwrando ar sgysiau'r
gynghrair yn y Grannell neu Gefn Hafod.

Mae yna gyfoeth o straeon a, bellach, mae gen i gwmni wrth grwydro
o gwmpas yr ardal; cwmni'r bobol oedd yn byw yma ac sy'n gyfrifol am
greu'r byd sydd o'n cwmipas ni.

Meddyliwch sut y mae pobol cwbl ddiethr yn teimlo neu, yn
hytrach, sut ddiffyg teimladau sydd ganddyn nhw. Dydyn nhw'n gwybod
dim am ddyfnder yr hyn sydd o'u cwmipas nhw.

Yr her i ni ydi eu helpu nhw i ddeall; er na fydd gan lawer ddim
diddordeb o gwbl, yn union fel nad oes gan rai ohonon ninnau ddim
diddordeb yn ein cefndir, mi fydd rhai yn cael eu cyfareddu.

Nid genynnau, na DNA, ydi perthyn i genedl neu gymdeithas ond
cydymdeimlad. Petaen ni'n dibynnu ar waed, mi fydden ni wedi diflannu
i bob pwrpas ymhen rhyw ganrif; ond mae yna obaith o hyd.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Ciwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Lift
cyfleus
yn ei le i
fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

CFFI Sir Gâr

Ar yr 21ain o Fawrth 2015 cynhaliwyd Diwrnod Siarad Cyhoeddus Cymru yn Llanellwedd lle bu'r unigolion a ddewiswyd i gynrychioli Sir Gâr yn cystadlu'n frwd.

Adran Cymraeg - Daeth Sioned Howells (CFFI Llanllwni), Cadi Evans a Ceris James (CFFI Penybont) yn drydydd yn yr Adran Ddarllen. Hefyd yn drydydd roedd Betsan Jones a Mared Phillips (CFFI Llanllwni) a Gwenllian Evans (CFFI Penybont) yn yr Adran Iau. Yn gydradd ail yn yr Adran Ganol oedd Mared Evans (CFFI Penybont), Ifor Jones (CFFI Llanllwni) a Dafydd Evans (CFFI San Ishmael). Yn yr Adran Hŷn daeth Miriam James a Swyn Davies (CFFI Penybont), Siân Evans (CFFI Llanddarog) ac Angharad Evans (CFFI Capel Dewi) yn ail.

Adran Saesneg - Kellie-Gwen Morgan (CFFI Llandeilo), Efa Jones (CFFI Llanfynydd) a Sioned Howells (CFFI Llanllwni) gynrychiolodd Sir Gâr yn yr Adran Ddarllen. Daeth Menna Isaac (CFFI Llanddarog), Aaron Hughes a Lowri Nicholas (CFFI Llangadog) yn ail yn yr Adran Iau gydag Aaron Hughes yn ennill Tlws Simon Kane am y siaradwr gorau yn y gystadleuaeth. Llinos Davies, Iestyn Owen ac Aled Rosser (CFFI Capel Dewi) ac Angharad Thomas (CFFI Dyffryn Tywi) gynrychiolodd Sir Gâr yn yr Adran Ganol gydag Elizabeth Harries, Mathew a Gwenann Jones (CFFI Dyffryn Tywi), Hefin Evans (CFFI Capel Iwan) a Siân Evans (CFFI Llanddarog) yn cynrychioli Sir Gâr yn yr Adran Hŷn.

Llongyfarchiadau mawr i'r unigolion ar eu llwyddiant, yn enwedig wrth iddynt ddod â Tharian Eryl Williams yn ôl i Sir Gâr am ennill y nifer mwyaf o bwyntiau yn y pedair Adran Gymraeg.



Llun: Aelodau a Swyddogion CFFI Sir Gâr gyda Chadeirydd CFFI Cymru, Iwan Meirion, yn dal Tarian Eryl Williams

Diolch i Ffion Rees (CFFI Llanllwni) am gynrychioli Sir Gâr yn y gystadleuaeth Cais am Swydd a llongyfarchiadau mawr i Siriol Richards,

Emyr Edwards, Mark Harries, Beth Speke a Richard Davies (CFFI Llandeilo) am ddod i'r brig yn y gystadleuaeth Ciwb a phob lwc iddynt ar lefel Cenedlaethol.

C.Ff.I. Ceredigion

Helo a shwmae, wrth Bethan Roberts a Eiry Williams! Fel Aelod Hŷn a Iau y Sir, ein dyletswydd newydd sbon yw adrodd hanes y Clybiau Ffermwyr Ifanc yng Ngheredigion i chi. Diolch o galon i Enfys a Gwawr Hatcher am eu gwaith llynedd. Edrychwn ymlaen at drosgrlwyddo hanes, canlyniadau a bwrlwm y mudiad i chi yn ystod y flwyddyn nesa!

Pantomeim y Sir

Nôl a ni i fis Chwefror. Yn dilyn pedair noson o gystadlu brwd, gyda 12 panto o safon uchel ar lwyfan Theatr Felinfach, Clwb Llanwenog ddaeth i'r brig gyda 99 allan o 100 o farciau. Yn ail roedd Pontsian a Lledrod yn drydydd. Y beirniad eleni oedd Deiniol Wyn Rees.

Yn ennill Tarian Mr a Mrs Alwyn Evans am yr actor gorau o dan 16 oedd Rhys Davies, Llanwenog. Enillydd Cwpan Teulu Pantyrodyn am yr actores orau o dan 16 oedd Cadi Jones o Glwb Lledrod. Iwan Davies o Glwb Llanddewi Breffni gipiodd Cwpan Coffa Dafydd Elgan Lewis, Penparc am yr actor gorau a Meleri Morgan o Langeitho dderbyniodd Cwpan Helen Phillips, Llanwenog am yr actores orau o dan 26. Llongyfarchiadau i chi'ch pedwar. Clwb Llanwenog dderbyniodd Gwpan Mr a Mrs Lyn Evans, Bryngwyn am y Cynhyrchydd

Gorau a nhw hefyd, ar y cyd gyda Felinfach, enillodd Gwpan Theatr Felinfach am y Perfformiad Technegol Gorau. Braff oedd gweld Theatr Felinfach yn orlawn bob nos a llongyfarchiadau i bob clwb am eu perfformiadau graenus. Dyma lun o glwb Llanwenog a ddaeth i'r brig:

Gwledd o Adloniant C.Ff.I Cymru

Teithiodd sawl clwb o'r Sir lawr i Abertawe ar gyfer y Gwledd o Adloniant ar benwythnos y 7fed ac 8fed o Fawrth. Llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog am ddod yn 3ydd yn y Pantomeim Cymraeg; perfformiad gwych! Daeth Eiry Williams a Bethan Roberts i'r 3 safle uchaf wrth gystadlu yn yr Aelod Iau a'r Aelod Hŷn ar y Dydd Sadwrn, a da iawn i Glwb Caerwedros am gynrychioli'r Sir yn y Dawnsio Masnachol ar y Dydd Sul.

I Ddod.....

Dydd Sul y 5ed o Ebrill: Diwrnod Hwylus Sul y



Swyddogion Newydd

Dewiswyd swyddogion newydd y Sir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn Nawns Dewis Swyddogion yn ddiweddar yn Llanina. Cafwyd adloniant eto eleni gan Beth McCann a braf oedd gweld Llanina yn llawn aelodau'n mwynhau, canu a chymdeithasu!

Brenhines y Sir am eleni yw Enfys Hatcher o Glwb Llanwenog a'r Ffermwr Ifanc yw Dion Davies o Glwb Pontsian. Y morwynion yw Lisa Mai Jones o Glwb Pontsian, Rhiannon Davies o Glwb Caerwedros, Elin Calan Jones o Glwb Llangwyrffon a Sioned Davies o Glwb Llanwenog. Llongyfarchiadau gwresog i'r 6 ohonoch. Edrychwn ymlaen at gydweithio a joio gyda chi yn ystod y flwyddyn! Dyma lun o'r criw llwyddiannus!

Pasg yng Nghlwb Rygbi Llambed

Nos Fercher yr 8fed o Ebrill: Hyfforddiant Barnu Stoc

Nos Lun y 13eg o Ebrill: Gala Nofio'r Sir ym mhwll nofio Aberaeron

Nos Fercher yr 15fed o Ebrill: Pwyllgorau'r Sir Dydd Sadwrn yr 18fed o Ebrill: Diwrnod Maes C.Ff.I Cymru yn Y Trallwng

Penwythnos y 24ain- 26ain o Ebrill:

Penwythnos CCB FfCCFf yn Torquay

Nos Lun y 27ain o Ebrill: Cwis Hŷn y Sir

Canlyniadau Clwb 200

Chwefror: 1af: Marc a Wendy Jenkins, Ysguborwen, Mydroilyn; 2il: W W a L H Jones, Garth, Beulah; 3ydd: Gareth Lloyd, Hafancletwr, Talgarreg, Llandysul

Mawrth: 1af: Hywel Thomas, Delfan, Oxford Street, Aberaeron; 2il: Dewi a Non Williams, Rhandir Uchaf, Llangwyrffon; 3ydd: C.Ff.I Llanddeiniol

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

			1		2
		8	7		4
		4	9	3	5
	2			3	9
5					1
	9	7		4	
7	8		3	5	
	3		6	7	
4			9		

Atebion Swdocw mis Mawrth:

Llongyfarchiadau i:

Myra George,

Heol Penygarn,

Tycroes,

Rhydaman a

diolch i bawb arall

am gystadlu: Avril

Williams, Y Fedw,

Cwmann; Joan

Stacey, Tynwaun,

Ffaldybrenin; Eurwyn

Davies, Heol y Gaer, Llanybydder a Rob


Phillips, Llety Clyd, Llanbed.

3	6	9	7	5	2	1	4	8
5	7	8	1	3	4	2	9	6
4	1	2	9	6	8	7	3	5
1	3	5	6	9	7	8	2	4
7	2	6	8	4	3	5	1	9
9	8	4	2	1	5	6	7	3
2	9	1	3	8	6	4	5	7
8	4	3	5	7	1	9	6	2
6	5	7	4	2	9	3	8	1

Cwrtnewydd

Llywydd yr Eisteddfod Gylch

Mrs Wendy Davies, Caerwenog oedd llywydd y dydd yn Eisteddfod yr Urdd cylch Llambed eleni. Fe'i cyflwynwyd gan un o arweinyddion y dydd, sef Miss Carol Davies, pennaeth ysgolion Cwrtnewydd, Llanwenog a Llanwnnen.



Diolchodd Miss Davies iddi am ei haraith bwrpasol ac am ei rhodd hael i gronfa'r Eisteddfod. Cyflwynwyd blodau iddi gan ddau o ddisgyblion blwyddyn 6 ysgol Cwrtnewydd sef Lleucu Rees a Carwyn Davies.

Ysgol Cwrtnewydd

Mae wedi bod yn fis prysur ym mywyd Ysgol Cwrtnewydd unwaith eto! Cynhaliwyd cystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd Sir Ceredigion yn Llangrannog a dyma'r canlyniadau gwyh!

Gwaith Creadigol 2D Bl.2 ac iau - 1af : Ela Rees ac 2il : Luc Rees. Print Monocrom Bl.2 ac iau - 1af: Ela Rees a 3ydd: Megan Davies. Print Monocrom Bl.5 a 6 - 1af: Lisa

Jenkins. Cyfres o Brintiau Lliw Bl. 3 a 4 - 1af: Katy Moyes. Print Lliw Bl.2 ac iau - 1af: Megan Davies ac 2il: Glesni Rees. Gwaith Creadigol 3D Bl.5 a 6 - 2il : Carwyn Davies. Graffeg Cyfrifiadurol Bl.2 ac iau - 2il : Jac Rees. Gwau / Crosio Bl.5 a 6 - 2il : Lleucu Rees. Print Lliw Bl.5 a 6 - 2il: Lleucu Rees. Cyfres o Brintiau Monocrom Bl.2 ac iau - 2il: Mari Rees. Cyfres o Brintiau Lliw Bl.2 ac iau - 3ydd: Lucy Moyes. Cyfres o Brintiau Lliw Bl.5 a 6 - 3ydd: Alaw Jones. Gwaith Creadigol 2D Bl.5 a 6 - 3ydd: Lisa Jenkins. Gwaith Creadigol 3D Tecstilau Bl.2 ac iau - 3ydd : Sara Davies. Penwisg Bl.6 ac iau - 3ydd: Nathaniel Wroe

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn ein ffordd traddodiadol o wisgo'r wisg Gymreig. Cyhoeddwyd taw Caitlin Gibbons a Lois Jones yw cymwynaswyr y flwyddyn a hefyd cynhaliwyd cystadlaethau llawysgrifen ac arlunio.

Ysgol Cwrtnewydd oedd yn gyfrifol am drefnu Eisteddfod yr Urdd cylch Llanbed eleni. Ar nos Fawrth 3ydd o Fawrth cynhaliwyd yr Eisteddfod Ddawns a Theatr yn Ysgol Bro Pedr ac ar ddydd Gwener, Mawrth 6ed roedd yn ddiwrnod y canu a llefaru.

Dyma'r canlyniadau:-
1af – Càn Actol. 1af – Parti Unsain. 1af – Llefaru Bl. 3 a 4 - Clodagh Dalton. 1af – Cerdd Dant Bl.5 a 6 - Nia Morgans. 2il – Parti Llefaru. 2il – Unawd Bl. 3 a 4 – Elan Jenkins. 2il – Llefaru Bl.

3 a 4 – Katy Moyes. 2il – Deuawd – Lois Jones a Nia Morgans. 3ydd – Unawd Bl. 5 a 6 – Lois Jones. 3ydd – Llefaru Bl. 5 a 6 – Lois Jones

Diolch i bawb a gynorthwyodd i sicrhau rhediad llyfn yr eisteddfod.

Braf oedd cael croesawu henoed plwyf Llanwenog i'n plith. Bu'r plant wrthi yn diddanu'r henoed gydag eitemau gwahanol. Diolch iddynt am y lluniaeth.

Aethom am brynhawn i gartref preswyl Alltymynydd i gynnal cyngerdd i'r trigolion.

Bu disgyblion o Ysgol Bro Pedr hŷn gyda Mr D Williams a Mr H Roderick yn ymweld ag Ysgol Cwrtnewydd a chwrdd â phlant blwyddyn 6 ysgolion Llanwenog, Llanwnnen a Chwrtnewydd ar gyfer sesiwn cwestiwn ac ateb er mwyn i ddisgyblion blwyddyn 6 gael eu paratoi ar gyfer mynychu'r ysgol uwchradd.

Bu bron holl blant yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Rhanbarthol yr Urdd ym Mhonrhyfendigaid ddydd Sadwrn, Mawrth 21ain. Cafwyd canlyniadau arbennig a phob plentyn wedi mwynhau.

Dyma'r canlyniadau: Llefaru bl. 3 a 4 - Clodagh Dalton - 2il. Cerdd Dant bl. 5 a 6 - Nia Morgans - 2il. Càn Actol - 2il. Parti Unsain - 3ydd
Diolch i'r Prifardd Dylan Iorwerth am ysgrifennu sgrïpt y Gân Actol unwaith eto.

Rhaid oedd ffarwelio â Mrs Meriel Davies ar ôl cyfnod o flwyddyn yn ein plith yn addysgu yn y ddau

gyfnod. Hefyd bydd Mrs Nerys Vobe yn newid ei swyddogaeth ond hoffem fel ysgol diolch i'r ddwy am eu gwaith arbennig yn ystod y flwyddyn. Croesawn Mrs Hannah Thomas yn ôl i'r ysgol yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Rhaid diolch o galon hefyd i Mrs Gwyneth Davies am ei gwaith di-flino fel Pennaeth Cynorthwyol yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Thomas.

Bydd ein gweithgareddau Calan Mai blynyddol yn cael eu cynnal fel yr arfer ar Fai 4ydd. Croeso cynnes i bawb.

Pen-blwyddi arbennig

Yn ystod mis Mawrth dathlodd Sulwen Lloyd, Ucheldir, Lyn Rees, Tanrhos ac Alan Jones, Penlan fach, ben-blwyddi arbennig. Gobeithio eich bod i gyd wedi mwynhau eich diwrnodau.

Diolch

Dymuna Sulwen Lloyd, Ucheldir, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Wyres a Gor-wyres newydd

Llongyfarchiadau i Anne Evendon, Gwalia, ar ddod yn fam-gu unwaith eto i Efa, merch fach i Jason a Helen yn Llanybydder a chwaer fach newydd i Soffia. Yn yr un modd, cafodd Mrs Catherine Jane Davies, Glennydd, or-wyres fach newydd yn Efa hefyd.

Llanwnnen



Llongyfarchiadau i Jac Davies, Rhydygalf, Pontweli, ŵyr i Huw Davies, Ornant, Llanwnnen, ar gael ei ddewis yn aelod o dîm iau Pysgota Plu Cymru. Mae Jac yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Teifi, ac mae e wedi bod yn pysgota ar yr afon Teifi ers yn blentyn. Bydd Jac yn cynrychioli Cymru yn yr Alban fis Awst eleni. Pob lwc i ti Jac!

Yn y llun mae Jac yn Parc Llandysul gyda'r afon Teifi yn y cefndir.

Meddwl amdanoch

Danfonwn ein cofion at Rhian England, Cwrt y Brodyr, sydd yn Ysbyty Treforys yn dilyn damwain car yn ystod y mis. Gobeithio Rhian dy fod yn teimlo ychydig yn well erbyn hyn ac y byddi adre cyn hir. Hefyd danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda thi a'r teulu yn dilyn marwolaeth dy dad, Dai England, o Landre ger Aberystwyth, a hynny o ganlyniad i'r ddamwain.

Cydymdeimlad

Danfonir cydymdeimlad ardal eang at deulu Tynllyn yn dilyn eu colled sydyn o golli nith a chyfnither annwyl iawn yn Hawys Williams yn ddiweddar.

Dathlu

Dathlodd Richard Jones, Brynheulog, ben-blwydd yn 50 oed yn ystod mis Mawrth.

Hefyd yn ystod y mis dathlodd Gareth Rees, Hafod, ei ben-blwydd yn 70 oed. Gobeithio eich bod eich dau wedi mwynhau'r dathliadau.

Sefydliad y Merched

Ym mis Chwefror daeth Ken Lewis o Lanwnnen, sydd wedi ymddeol fel Arolygydd yr Heddlu, atom i sôn am ei waith. Diddorol oedd clywed am wahanol dasgau yr oedd wedi'i gyflawni. Diolchodd ein llywydd Mrs Avril Jones iddo am ei araith.

Ym mis Mawrth cyfarfu'r sefydliad yn y Pantri yn Llambed i ddathlu Gŵyl Dewi. Cawsom wledd o gawl Cymreig, pice ar y maen, tarten afalau, pwddin reis, bara brith ac ati. Roedd pawb wedi mwynhau noson fendigedig. Diolchodd Mrs Avril Jones i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu'r noson ac i Mrs Delyth Jones am y croeso a'r lluniaeth hyfryd. Enillydd y gystadleuaeth fisol am eitem Gymreig oedd Mrs Alice Davies.

Pwyllgor Adloniant y Pentref – Dathlu Gŵyl Dewi

Nos Wener, Mawrth 13eg cafwyd noson hyfryd o Gawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell drwy garedigrwydd Siriol a Susan.

Cyflwynodd Mrs Gwen Davies lywyddion y noson, sef Mr Huw a Mrs Joy Williams, Ffenestri Derwen, a chafwyd araith odidog gan Mrs Williams. Diolchodd Gwen iddynt am eu cyfraniad ariannol tuag at y noson. Bu Mr Pete Ebbsworth, Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol, yn arwain cyngerdd gyda phlant yr ysgol ac Aelodau CFfl Llanwenog yn cymryd rhan. Pleser oedd gweld amrywiaeth o dalentau safonol yn canu, adrodd, dawnsio gwerin a disgo, a hyn i gyd gan ieuencid y fro. Wedyn cafwyd cawl blasus i'r oedolion a sgolodion i'r plant. Roedd hi'n noson fendigedig a diolchodd Mrs Gwen Davies i bawb am ei gwneud yn llwyddiant. Rhannwyd elw'r noson rhwng yr Ysgol a'r Pwyllgor Lles.

Eisteddfod Capel y Groes

Cofiwch gefnogi Eisteddfod Capel y Groes ar ddydd Mercher, Ebrill 8fed i ddechrau am 1.30y.p. Croeso cynnes i bawb.

**Cefn Hafod
Gorsgoch**



01570 434238

**Cyri bob nos Wener
£6 y pen**

Croeso cynnes i bawb!

**W.D.
Lewis**
a'l Fab

*Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants*

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

**Alec Page
Gof**



**Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.**

Dewch i drafod eich syniadau.

**Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.**

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHIWR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.

Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cwmann

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Glyndwr a Margaret, Glyn, Cwmann ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganwyd Ellis Rhys i John Rhys a Nina ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae Aron yn browd iawn o'i frawd bach.

Llongyfarchiadau calonog i Beca Ann Jones, 1 Cwrt Deri ar gael ei llwyddiant ysgubol yn cael ei dewis i fod yn rhan o gorws 'Only Kids Aloud'. Mae'r anrhydedd yma'n un arbennig iawn gan y bydd Beca yn un o 100 o bobl ifanc Cymru yn unig i dderbyn aelodaeth. Mi fydd yn dechrau ar yr ymarferion y mis yma. Pob llwyddiant i ti.



Ysgol Carreg Hirfaen

Bu plant yr ysgol yn brysur yn cystadlu yn yr Eisteddfod yn ystod y mis. Cafwyd cystadlu brwd yn ein Heisteddfod Ysgol a gynhaliwyd yn neuadd Bro Fana, Ffarmers. Agos iawn oedd y cystadlu ond Cothi a gipiodd dlws y tŷ gorau ar ddiwedd y dydd. Enillwyd cadair CA2 am y stori Gymraeg orau gan Mali Jones, a'r darian am y gwaith Saesneg gorau gan Harvey Bollen. Enillwyd cadair Cyfnod Sylfaen gan Seren Ling. Jessica Jones enillodd gadair blyneddod 3 a 4 ac Elen Jones yn ennill tarian am waith Saesneg. Llongyfarchiadau enfawr i bawb. Cafwyd diwrnod bendigedig yng nghwmni'r beirniaid Mrs Carol Dyer a Hilda Jones. Diolch i chi am eich holl waith caled.

Prysur hefyd oedd ein disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd Llanbed. Daeth y côr a'r parti llefaru i'r brig, a chipiodd y parti unsain a'r ymgom yr ail wob. Cafwyd diwrnod penigamp yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd ym Mhontrhyfendigaid â'r grŵp llefaru yn ennill y drydedd wob.

Cafodd Undeg Jones o flwyddyn 6 y cyfle i chwarae'r fflwt yn Eisteddfod ranbarthol y Sir. Cafwyd perfformiad gwych ganddi.

Cafodd nifer o blant lwyddiant mawr yng ngala nofio Llambled yn ystod y mis gyda sawl un yn cipio gwobrau unigol. Da iawn i bawb a fu'n cystadlu.

Bu PC Alun yn ymweld â'r disgyblion unwaith eto i drafod amrywiaeth o bynciau gan gynnwys peryglon ysmegu gyda bl. 3 a 4.

Cynhaliwyd gŵyl aml sgiliau yng Nghanolfan Llambled lle bu dosbarth



Llun o'r seremoni Gadeirio yn eisteddfod yr ysgol.



Cafodd yr ysgol lwyddiant yng nghystadleuaeth Traws-gwlad Dyfed yn ystod y mis. Daeth Gwenllian Llwyd yn 9fed yn y ras i ferched bl 4. Llongyfarchiadau mawr iddi ac i bawb arall a redodd.

bl 3 a 4 yn cael hwyl wrth ymarfer a datblygu sgiliau chwaraeon.

Cafodd plant y dosbarth derbyn, bl 1 a 2 fore wrth eu bodd yn gwrando ar sioe 'Oes rhaid i mi ddeffro?' gan gwmni Arad Goch yn ddiweddar. Llwyddodd yr actorion i ddal dychymyg y plant yn wych ac roedd eu brwdfrydedd yn hyfryd i'w weld.

Mae Seven o glwb 5x60, Ceredigion wedi bod yn rhoi hyfforddiant sgiliau pêl droed i flwyddyn 1 a 2 bob prynhawn Llun ers dechrau'r hanner tymor. Mae'r plant wedi elwa'n fawr o'r profiad ac wedi cael llawer o fwynhad.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth ar nos Lun yr 2ail yng nghaffi Mark Lane, Llambled, lle cawsom fwynhau gwledd o gawl, crymbl afal neu dreiffl, gyda phice bach a chwaned o de i offen.

Ar ôl bwyta cyflwynodd y Llywydd, Noelene Davies, y wraig wadd, sef Marilyn Haines Evans o Langadog sydd wedi bod yn aelod gweithgar o Sefydliad y Merched am ddeugain mlynedd, a hi oedd Cadeirydd Ffederasiwn Cymru pan oedd y Sefydliad yn dathlu 90. Mae hi nawr yn Gadeirydd Materion Cyhoeddus ac yn ymgychu ar ein rhan dros faterion fel labeli bwyd, cefnogi'r stryd fawr, pris llaeth ac yn



Yr unigolion â'r pwyntiau uchaf oedd Elen Jones yn CA2 a Hari Jones yn y Cyfnod Sylfaen.

y blaen. Cafwyd amser diddorol yn gwrando arni'n sôn am ei phrofiadau a'i chysylltiadau â'r Sefydliad.

Diolchwyd yn gynnes i Marilyn gan Elma, a diolchodd hefyd i Elfan, Dorothy a'r staff am y bwyd blasus.

Enillwyd raffl y noson gan Marilyn, Gwyneth, Veronica a Noelene. Brenda enillodd y raffl o lyfr coginio newydd y Sefydliad a roddwyd gan y wraig wadd.

Dewiswyd Noelene i gael yr anrhydedd o fynd i'r Arddwest Frenhinol ym mis Mehefin i ddathlu canmlwyddiant Sefydliad y Merched.

Bydd y cyfarfod nesaf yn festri Bethel nos Fawrth 7fed o Ebrill.

CFFI Cwmann

Ddechreuon ni ein mis â noson gawl yn nhafarn Castle Green - cawsom groeso cynnes a digon o gawl, diolch i Eirwyn a staff Castle Green. Yr wythnos wedyn aethom ar daith i Gaerfyrddin i chware gêm o fowlio deg. I Landeilo yr aethom ar ddiwedd y mis, i flasau a gweld fel maen nhw'n gwneud hufen ia yn Mountain View Ice Cream. Diolch iddyn nhw am y croeso.

Ar y 10fed o Ebrill bydd y clwb yn cynnal noson Rasys moch yng Nghlwb Rygbi Llambled am 7.30 y.h. Bydd elw'r noson yn mynd i glwb Cwmann ac i gymdeithas feddygol motor niwron. Bydd ein raffl fawr hefyd yn cael ei dynnu ar y noson; cofiwch brynu tocyn wrth un o'r aelodau. Croeso mawr i chi gyd

ymuno â ni ar y nosweth, byddwn yn falch o'ch cefnogaeth. Bydd yn noson llawn sbort.

Diolch

Dymuna Alwyn Roberts, Pengelli, Parc y Rhos (neu Alwyn J H Roberts) ddiolch i bawb am y consyrn a ddangoswyd iddo yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch am y pentwr cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd. Gwerthfawrogi pob gair a gweithred yn fawr iawn.

Dymuna Heini Thomas, Tŷ Hathren, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Hefyd, dymuna Helen a Donald Thomas, Tŷ Hathren, ddiolch i bawb am yr anrhegion, cardiau, a'r cyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ein Priodas Arian.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Emyr, Llinos a'r teulu Araul, ar farwolaeth mam a mam-gu annwyl iawn, sef Barbara Jones o Llambed.

Hefyd â Mary a Wynne Davies, Emyr ac Aled a'r teulu o golli mam a mam-gu, Sally Lewis yng Nghartref Hafan Deg.

Yn ystod y dyddiau diwethaf fu farw Eva Brown yn Ysbyty Treforys; priod annwyl Jim.

Gwellhad Buan

Da oedd clywed fod Alwyn Roberts, Pengelli, yn gwella yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

Cartref

Ar ôl treulio rhai wythnosau yn Ysbyty Glangwili mae Miss Gwenda Thomas, Tegfan wedi cael ei symud i Gartref Maes Llywelyn yng Nghastell Newydd Emlyn. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn danfon ein dymuniadau gorau atoch.

Côr Meibion Cwmann a'r Cylch

Ar nos Sadwrn, Mawrth 7fed cynhaliwyd Cinio Blynnyddol y côr yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen. Roedd tua 70 yn bresennol - yn aelodau'r côr, eu gwragedd a ffrindiau. Ar ôl gras gan y Parchedig Aled Williams, aed ati i fwynhau y wled.

Llywyddwyd y noson gan Ken Lewis, cadeirydd y Côr, a soniodd am waith Cyril Davies y cyn-gadeirydd a oedd wedi trefnu gweithgareddau i ddathlu 50 oed y côr yn y flwyddyn a aeth heibio. Roedd popeth wedi mynd yn berffaith. Cyflwynwyd placiau pren gyda logo'r 50 arnynt i ddeg aelod a oedd wedi bod ynghlwm wrth y trefniadau. Ar ôl tynnu'r raffl, cafwyd sesiwn o gyd-ganu i ddod â'r noson hwylus i ben.

Y Diweddar T. R. E. Jones

Cydymdeimlwn fel ardal â theulu y diweddar Eirwyn Jones, Glaneiddig, neu Eirwyn Saer fel yr adnabyddid ef.

Daeth cyfnod o leiaf tair cenhedlaeth o seiri cefn gwlad i ben wrth golli Eirwyn ym mhlwyf Pencarreg.

Cymeriad hynaws a thawel gyda phawb yn gwerthfawrogi ei gyfeillgarwch a'i garedigrwydd. Roedd yn ffrind da i bawb ac roedd ymweld â chartrefi ei ffrindiau fin nos yn nodwedd o'i gymeriad.

Gwasanaethodd ei gapel, Bethel Parcyrhos, gyda graen fel diacon, ymddiriedolwr a gwelid ei enw yng ngweithgarwch yr ysgol Sul a'r gymdeithas. Anrhydeddwyd ef wedi iddo wasanaethu am hanner canmlwyddiant fel diacon yn 2007.

Yn anffodus cafodd y cartref anffawd difrifol yn y 1960au gyda than gan adael Glaneiddig mewn cyflwr enbyd. Bu caredigrwydd aelwyd ei chwaer Adeline a'i theulu yn Bryneiddig yn garedig iawn iddo. Treuliodd ei flynyddoedd olaf yng Nghartref Cwm Aur, Llanybydder.

Mynychodd Ysgol Coedmor ac am gyfnod Ysgol Ganol Llambed cyn dychwelyd i Coedmor. Roedd yn hoff o ddilyn rygbi a phêl-droed ac yn ymweld â chae'r Vetch yn Abertawe gyda'i gyfoedion.

Talodd ei weinidog, y Parch Huw Roberts, deyrnged caredig iddo ar ddydd ei angladd, a diolch i Mrs Glesni Thomas am wasanaethu wrth yr organ.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

Mis Chwefror

1. Noel James, Emlyn Cottage, Cwmann, 42. 2. Aled Williams, Sam Helen, Cwmann, 26. 3. Dai Herberts, Dolfor, Cwmann, 84. 4. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 98. 5. Joan Davies, 38 Heol Hathren, Cwmann, 145. 6. Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 119. 7. Gavin a Rebecca Evans, Annwylfan, Llanllwni, 73.

Mis Mawrth

1. Llinos Jones, Araul, Cwmann, 17. 2. Eifion Williams, Crown Stores, 25. 3. Mattie Williams, Ddeunant Hall, Cwmann, 70. 4. Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 81. 5. Bethan Lewis, 18 Heol Hathren, Cwmann, 54. 6. Pat Davies, Dolcoed, Cwmann, 12. 7. Vaughan Abel, Neuadd Deg, Cwmann, 109.

Clwb 225

1. Sallie Jones, Hathren, Heol y Bont, Llambed, 201. 2. Phyllis Jones, MBE, Priordy, St Thomas St, Llambed, 8. 3. M. Randell, Blaencwm, Cwmann, 157. 4. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 146. 5. Carwyn Lewis, 18 Heol Hathren, Cwmann, 83. 6. Rosa Lloyd, 7 Heol Hathren, Cwmann, 110. 7. Wynford Thomas, Pantygwin, Cellan, 140. 8. Angharad a Gareth, Garej Pontfaen, Llambed, 205. 9. Mr & Mrs Templeman, Bryngolau, Cwmann, 223. 10. Adam Richards, d/o Phyllis Smith, MBE.

Dyfarniad y Darllenydd

Cyffion a Chic yn y Pen-ôl: Hanesion Plismon ar Batrôl

Llyfr y Mis, mis Ebrill yw hunangofiant gonest Ken Lewis – neu Ken Cwrtnwydd, fel yr adwaenir ef orau. Mae Insbector Ken: Atgofion Plismon yn y Gorllewin Gwyllt yn gofnod o waith heddwas yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif a'r achosion y bu'n ymwneud â hwy. Ceir hefyd hanesion plismyn eraill sy'n perthyn i oes a aeth heibio, yn cadw'r heddwoch yn eu dull unigryw eu hunain.

Mae Insbector Ken yn enw cyfarwydd yn ardaloedd Llanelli, Glan-y-fferi, Rhydaman, Caerfyrddin a Llanbed wedi iddo fod yn gwasanaethu yno gyda'r heddlu am bron i 30 mlynedd. Ond fel y mae'n cyfaddef yn ei hunangofiant, erbyn hyn mae tuedd hefyd i'w adnabod fel tad Emyr Lewis, y chwaraewr rygbi rhyngwladol!

“Yn ystod fy nghyfnod fel arolygydd yn Llanelli, daeth Emyr yn enwog fel chwaraewr rygbi i dîm Athletig Caerfyrddin,” meddai Ken Lewis, sydd bellach yn byw yn Llanwnnen. “Bryd hynny, cyfeirid ato yn yr ardal fel ‘mab Inspector Llanbed’.

“Ond ychydig amser wedi hynny, a finnau yn arolygydd yn Llanbed, cafodd ei ddewis i chwarae i dîm cyntaf Llanelli. O fewn ychydig amser, ac yntau'n ennill enwogrwydd, dechreuwyd cyfeirio ataf i fel ‘tad Emyr Lewis’!”

Fel eglura Ken yn ei gyfrol, er na ddefnyddiodd ei ffôn (staff) o gwbl yn ystod ei yrfa yn yr heddlu, nid oedd hi'n anghyffredin bryd hynny i heddwas roi gic ym mhen-ôl unrhyw un os, yn ei dyb ef, oedd yn haeddu'r fath driniaeth. “Roedd defnyddio grym yn groes i'm hegwyddor,” esbonia Ken, “ond mewn ambell achos, nid oedd posib datrys digwyddiad drwy siarad a chynghori yn unig.

“Wrth weithio'r shift nos yn Llanelli, ces wybod gan yrrwr taci fod rhaid i fintai fechan o fechgyn ymosod ar blismon cyn cael ymuno â'r grŵp. Un noswaith, daeth arweinydd y fintai ymlaen ataf yn nhywyllwch Mincing Lane gan fy herio i ymladd ag ef. Yn hytrach na'i ateb, gafaelais yn ei goler, ei droi oddi wrthyf a gyda'm holl nerth fe gafodd gic yn ei ben-ôl.

“Rheddodd allan i Market Street ac yno roedd tri arall o'i ffrindiau yn aros. Rheddodd y pedwar i ffwrdd gyda'r gŵr a giciais yn dal ei ben-ôl â'i ddwy law. Byddai'r tri yma wedi ymosod arnaf oni bai i mi gael gafael yn y gŵr a rhoddid cic iddo yn ei ben-ôl fel y gwnes.”



Llanllwni



Plant Ysgol Meithrin Llanllwni yn dathlu'r ŵyl gyda'u hathrawon.



Plant Ysgol Llanllwni yn dathlu'r ŵyl.

Cronfa Ymddiriedolaeth Budd Cymunedol Fferm Wynt Statkraft Alltwalis

Os ydych am geisio am gefnogaeth y Gronfa i glwb, sefydliad neu gymdeithas o fewn ffiniau etholaeth Llanfihangel ar Arth mae croeso i chi gysylltu gyda'r Gweinydddydd Meinir Evans am becyn ymgeisio ar y rhif ffôn 01559 395 699 neu ar e-bost meinir.evans@btinternet.com. Bydd y dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau ar 10ed Ebrill a 4ydd Gorffennaf 2015.

Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Cronfa Cymunedol Fferm Wynt Statkraft Alltwalis ar 14eg Gorffennaf am 7.30 yn Ffestri Capel Tabernacl Pencader.

Dosbarth J's Workout yn Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni

Os hoffech chi gadw'n heini yn lleol mewn awyrgylch cyfeillgar yna mae croeso i chi ymuno gyda ni a Js Workout ar nos Wener am 8yh yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni (Maesyrugiau) am gost o £4 y sesiwn. Ni fydd dosbarth nos Wener y 3ydd na 10ed Ebrill.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Daeth gwaith misoedd o adnewyddu'r Eglwys gan gwmni profiadol, ac oriau di-ri o waith gwirfoddol gan aelodau'r Eglwys, i'w penllanw ddydd Sul Chwefror 22ain, gyda gwasanaeth i ail gysegru'r adeilad gan y Gwir Barchedig J. Wyn Evans, Esgob Ty Ddewi. Roedd yn wasanaeth diffuant iawn, a hyfryd oedd cael presenoldeb yr Esgob a'i Gaplan, Paul Mackness. Cafwyd lluniaeth yn y Neuadd i ddilyn.



Dyma lun o Megan Evans, Maes Yr Onnen, Llanllwni. Mae Megan, sydd yn 10 oed, wedi pasio fel 3ydd Kyu, Brown Belt ddechrau mis Mawrth. Mae'n ddisgybl yng Nghlwb Karate Black Wolf sydd yn cwrdd yng Nghoed y Bryn ar nos Lun a Chwmann ar nos Iau. Llongyfarchiadau i ti Megan.

Undeb y Mamau

Ym mis Chwefror cafwyd cwis gan y Ficer, a chyfle i edrych ar amrywiaeth eang o beiblau, a llyfrau eraill o eiddo'r Ficer. Diolch yn fawr

iddi.

I gyfarfod mis Mawrth, ein gŵr gwadd oedd Crispin Rainer o Erddi Norwood, Llanllwni. Mae Crispin wedi byw yn Norwood ers llawer o flynyddoedd erbyn hyn, ond yn anffodus mae'r busnes ar werth. Serch hynny pwysleisiodd ei fod am aros yn y pentre. Cawsom wybodaeth ddiddorol ac eang ganddo am arddio, ac roedd yn barod iawn i ateb cwestiynau'r aelodau. Edith dalodd y diolchiadau.

Ym mis Ebrill byddwn yn cwrdd yn Llanbed i weld arddangosfa ddiweddaraf Jen Jones.

Cylch Meithrin Llanllwni

Dymuniadau gorau i Osian Powell a Eliza Keyworth wrth iddynt fynd i ddosbarth Mrs Jones ar ôl y Pasg.

Cynhelir Bingo Pasg nos Lun 13eg Ebrill yn Nhafarn Talardd Llanllwni am 8yh. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a gwobrau ariannol. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.

Bydd y Cylch yn ail agor ddydd Mawrth 14eg o Ebrill yn dilyn gwyliau Pasg.

Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore Gwener am 10 yb hyd 12 yp yn Ysgol Llanllwni. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a tadcu's ddod gyda'u plant i gymryd rhan yn y gwahanol gweithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

CFFI Llanllwni

Wel, mae'r flwyddyn yn mynd yn ei blaen yn gyflym iawn, ry'n ni chwarter ffordd trwy 2015 yn barod! Mae'r aelodau wedi bod yn brysur y mis hwn eto. I ddathlu Gŵyl ein Nawdd Sant, bu criw o'r aelodau draw yn neuadd yr Ysgol, Llanfihangel-Ar-Arth, yn diddanu'r gynulleidfa gydag eitemau amrywiol. Diolch am y gwahoddiad, yn ogystal â'r cawl blasus. Braff gweld y neuadd ar ei newydd wedd.

Ar nos Wener olaf Chwefror, bu rhai o'r aelodau yn cystadlu yn eisteddfod Llanfihangel yng nghystadleuaeth y Parti Unsain, a dyfarnwyd hwy'n haeddiannol iawn â'r wobwr gyntaf, gan sicrhau swm sylweddol tuag at goffrau'r clwb.

Nos Wener cyntaf mis Mawrth, cynhaliwyd Bingo gan y clwb yn nhafarn Talardd. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi, cafwyd noson hwylus iawn.

Yn ystod gŵyl y Pantomeim yn Abertawe, daeth llwyddiant ysgubol i un o'n haelodau: daeth Betsan yn fuddugol ar lefel Cymru yng nghystadleuaeth ffasiwn a modelu. Canlyniad ffantastig i ti Betsan, a phob lwc i ti eto ar lefel cenedlaethol ym mis Gorffennaf. Yn ystod y penwythnos hefyd bu Owain yn



Bu pump aelod o glwb Llanllwni yn cystadlu ar lefel Cymru yn Llanellwedd yng nghystadleuaethau siarad cyhoeddus. Roedd Betsan Jones a Mareed Phillips yn rhan o dîm Sir Gâr a ddaeth yn drydydd yn yr adran iau; Ifor Jones yn rhan o dîm yr adran ganol a ddaeth yn cydradd ail; a Sioned Howells yn rhan o'r timoedd darllen Cymraeg a Saesneg. Daeth y tîm Cymraeg yn trydydd. Bu Ffion Rees hefyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth cais am swydd. Llongyfarchiadau mawr i'r pump ohonoch am gynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru. Braff oedd clywed ar ddiwedd y dydd bod Sir Gâr wedi ennill y darian am y marciau uchaf yn yr adran Gymraeg.

ymgeisio am aelod iau Cymru. Gobeithio i ti fwynhau'r profiad, a phob lwc i ti yn dy swydd fel aelod iau Sir Gâr am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r Rali flynyddol yn prysur agosáu, ac yn fuan iawn bydd yr aelodau yng nghanol ymarferion erbyn pinael y flwyddyn yng nghalendr y ffermwyr ifanc. Cyn hynny, cofiwch ymuno â ni yn Nhafarn Talardd yn ein noson Tip-it, sydd i'w chynnal nos Wener y 10fed o Ebrill. Pasg hapus i chi gyd!

Ysgol Llanllwni

Bu dosbarth CA2 ar daith i Dŷ Ddewi yn ymweld â'r Eglwys Gadeiriol a chawsant gyfle i wneud gweithgareddau i ddysgu mwy am Dewi Sant.

Llongyfarchiadau i James Rhodes, Elan Evans ac Owen Thomas ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Celf, Rhanbarth Ceredigion yr Urdd, yn Llangrannog yn ddiweddar. Cafodd James 3ydd am ei fodel 'Llosgfynydd' i flynyddoedd 5 a 6. Cafodd Owen ac Elan 3ydd am eu gwaith 3D 'Tyfiant y cyw bach melyn'. Da iawn chi.

Cafodd rhai plant y profiad o gystadlu yn rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd Cylch Llanbed ac yn y prynhawn bu'r parti llefaru yn cystadlu lle daethant yn drydydd. Da iawn bawb.

Llongyfarchiadau i Alwena Owen ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch gan gael 1af am Lefaru (bl.2 ac iau), 1af am Alaw Werin (bl.6 ac iau), 2il am Unawd Cerdd Dant a 3ydd am Unawd (bl.2 ac iau). Da iawn ti Alwena! Yna aeth ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod y Sir ym Mhontrhydfendigaid lle cafodd ail am lefaru (bl. 2 ac iau) a 3ydd am yr Alaw Werin (bl 6 ac iau).

Cafodd sawl plentyn wobrau mewn cystadlaethau Celf a Llawysgrifen yn Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth.

Llongyfarchiadau i chi gyd.

Cynhaliwyd ein Eisteddfod Ysgol brynhawn Llun, Mawrth 2il. Bu pob plentyn yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth adrodd, canu, dweud jôcs, dawnsio a sgetsys. Tîm Hendre oedd yn fuddugol gyda thîm Teifi a Talog yn gydradd ail. Diolch yn fawr i Ficer Eileen Davies am roi ei hamser i ddod i feirniadu'r cystadlaethau. Diolch hefyd i'r rhieni a'r ffrindiau a ddaeth i gefnogi.

Braff oedd gweld y plant wedi ymdrechu i wisgo fel cymeriadau o lyfrau ar Ddiwrnod y Llyfr ac yna ar ddiwrnod Trwyn Coch, roedd amrywiaeth o drwynau coch doniol yn y dosbarthiadau.

Bu dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn gweld sioe 'Dw i ddim am Ddeffro' gan gwmni Arad Goch yn Ysgol Llanybydder. Mwynhawyd y perfformiad yn fawr a diolch i Ysgol Llanybydder am y croeso.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mawrth:

1af - £10 – Tracy Jenkins, Glas Y Dorlan; 2il - £5 – Dave Emeny, Siop Llanllwni; 3ydd - £5 – Thomas Williams, Clyniau, New Inn.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Mrs Sallie Davies, Maes, ben-blwydd sbesial yn ystod yr wythnosau diwethaf. Iechyd da i chi eto am flynyddoedd lawer.

Cydymdeimlad

Yn ystod diwedd mis Mawrth daeth newyddion trist i aelwyd Blaencwmdu pan gollwyd modryb a hen fodryb hoffus iawn i Eleri, sef Mrs Martha Jones o Gartref Maes y felin, Drefach. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr a dwysaf.

Diolch

Dymuna Sallie Davies, Maes, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Llanbedr Pont Steffan

Adran yr Urdd Llambod

Cafwyd noson o goginio yn yr Adran a phawb yn cael cyfle i wneud pitsa ac addurno cacen. Diolch yn fawr iawn i Mrs Dorothy Williams am ddod â'r cynhwysion ac am ei pharatoadau trylwyr. Mae Dorothy bob amser yn barod iawn i'n cynorthwyo yn yr Urdd. Treuliodd noson yn paratoi bathodynau a diolch i Mr Griffiths a'r adran DT am gael benthyg y peiriant. Llongyfarchiadau i bartïon unsain a llefaru'r adran ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch a diolch i Elin, Rhiannon a Lois am hyfforddi a chyfeilio.

Cipiodd parti unsain yr adran y wobwr gyntaf, côr yr adran yr ail wobwr a'r grŵp llefaru y drydedd wobwr yn yr Eisteddfod Sir. Diolch o galon i'r hyfforddwyr Rhiannon ac Elin ac i Lois am gyfeilio.

Dathlu

Dathlodd Emyr Richards, Goedwig ben-blwydd arbennig ar ddechrau'r mis ac yna Mary Jones, Landre ganol y mis. Gobeithio eich bod eich dau wedi mwynhau'r dathlu.

Urdd y Benywod, Brondeifi

Noson yng Nghwmni Geraint Lloyd

Ar Chwefror y 12fed bu'r Urdd yn ffodus i ddal Geraint ar ei ffordd i'r stiwdio i gyflwyno ei sioe boblogaidd ar Radio Cymru. Mae'r rhaglen yn cael ei darlledu rhwng 10 a 12 bob nos yn ystod yr wythnos. Bachgen o fferm ger Lledrod yw Geraint. Treuliodd ei ieuenctid gyda chast o gymeriadau'r fro, un ohonon nhw, Richard James Llanilar, a gafod waith i Geraint yn y Co-op yn Aberystwyth. Ond oedd Geraint yn mwynhau ralio a thrwsio ceir, ac ar ôl gweithio i Coombs Industries fe ddechreuodd fusnes ceir ei hun. Roedd hefyd yn aelod brwdfrydig o Glwb Ffermwyr Ifanc Lledrod a dyna lle cafodd ei addysg mewn sgiliau ym myd y cyfryngau. Cafodd sbort ar y llwyfan mewn sawl pantomeim, ond dywedodd mae'r sbri fwyaf oedd yn chwarae jôcs gyda'r cast a dysgu am y peiriannau a'r goleuadau y tu ôl i'r llwyfan. Yn y Clwb cafodd gyfle i actio, i gyflwyno, ac i gynhyrchu dramâu a siarad yn gyhoeddus. Ar yr un adeg yn y 1980au roedd radio lleol yn dechrau. Cymerodd Radio Ceredigion fantais ar sgiliau technegol Geraint a'i allu i sgwrsio gyda phawb, a chafodd swydd yno.

Mae Geraint yn storïwr talentog ac arweiniodd ei wrandawyr ar daith drwy'r holl ardal yma yn ystod y deugain mlynedd diwethaf.

Clywsom am fyd y cyfryngau hefyd. Prentisiaeth dda oedd gweithio i Radio Ceredigion gan nad oedd arbenigrwydd ar y pryd a

phawb yn mynd ati i greu rhaglenni. Byd hollol wahanol oedd yn bodoli wedi iddo ymuno â'r

BBC. Roedd rhaid gweithio gyda chynhyrchydd a sgript ac adran rheolau. Ond fel y gŵyr pawb, mae Geraint wedi llwyddo yn y BBC heb golli'i allu i gyfathrebu ac i fwynhau cwmni pob math o bobl. Mae'r dechnoleg wedi newid yn gyfan gwbl, yn y stiwdio a thu allan. Fe fyddai eitem fel y ciosg (pan oedd Geraint yn rhoi galwad i un o'r bocsys ffôn coch) ddim yn bosib nawr yn oes y ffôn symudol. Trwy ddefnyddio'r we mae'n bosib creu rhaglen gyda'r stiwdio ym Mangor o Aberystwyth a chysylltu gyda'r tîm yng Nghaerdydd ar yr un pryd.

Fel cynhyrchydd mae Geraint yn trefnu rhaglenni gyda Dai Llanilar a sêr Cymraeg eraill. Eto i gyd, pan oedd y BBC eisiau codi ffigurau gwrandawyr yn yr hwyr, Geraint gafodd y dasg ac mae wedi llwyddo.

Pleser oedd gwrandao a sgwrsio wyneb yn wyneb â Geraint (a cheisio ateb posau!) Mae mor gartrefol yn siarad gydag aelodau'r Urdd ag yw e'n siarad gyda Bois y Loris. Eryl Jones gafodd y fraint o ddiolch i Geraint Lloyd am gyfarfod hwyliog.

Y wraig wadd ar y 12fed o Fawrth oedd Elsi Dafis, Maer Llanbedr Pont Steffan eleni. Cafodd Elsi ei magu yn Llanwenog. Aeth hi i'r ysgol yn y pentref ac yna i Landysul cyn mynd i'r coleg yn Llanbedr. Wedyn aeth i ffwrdd i Lundain i weithio yn Covent Garden cyn dod yn ôl i'w milltir sgwâr.

Roedd Elsi yn cynhyrchu'r cylchgrawn LAMP am 10 mlynedd, ac mae wedi bod yn gynghorydd tref am 8 mlynedd. Mae gan Elsi ddiddordeb mawr yn y broses ddemocratig. Mae ei gwaith dros y gymuned fel cynghorydd yn mynd law yn llaw â'i hastudiaethau uwch yn y clasuron yng Ngholeg y Drindod. Felly roedd yn egluro fod y profiadau hyn wedi ei harwain atom ni bobl Llanbedr a'r awydd i wneud penderfyniadau yn y gymdeithas.

Adroddodd am sefyll yn yr Acropolis yn Athen, ble dechreuodd y syniad o'r 'demos', sef y bobl, yn cael ethol cynrychiolwyr. Dywedodd bod yn rhaid i'r bobl sefyll fel cynrychiolwyr yn eu tro. Byddai hyn yn syniad da i'r dref, meddai. Y Groegiaid oedd y cyntaf i ddefnyddio'r bocsys balot, ond rhaid cofio nad oedd hawl i bleidleisio gan fenywod na chaethweision yno.

Siaradodd Elsi am ei gwaith a'r dyletswyddau sydd ganddi fel maer yn Llanbedr, a'r cysylltiadau rhwng y dref a'r cyngor sir. Yn bennaf mae cynghorwyr y dref yn atebol i drethdalwyr y dref, nid y busnesau. Nid yw'r cynghorwyr yn cael eu talu. ond mae'r maer yn cael £3,000 tuag at dreuliau'r swydd. Mae'n fraint i fod yn faer,



Dyma lun o blant Ysgol Sul Brondeifi yn dathlu Gwyl Dewi gyda gwledd o adloniant a chawl. Elen, Sion, Gruffydd, Martha, Ffion, Marged, Rhys, Ifan, Sara, Mari a Deina.

ond mae'n swydd gyda chyfrifoldeb i bobl y dref. Roedd Elsi yn hapus i ateb cwestiynau'r aelodau am rai o ddigwyddiadau yn y dref ac esbonio sut y gwneir penderfyniadau. Fel roedd y ddefod gyda'r Groegiaid yn Athen, mae gan bob un ohonom yn y dref hon yr hawl i siarad mewn cyfarfodydd y Cyngor ac i fod yn rhan o'r broses ddemocratidd. Rhaid rhoi rhybudd o ddau ddiwrnod i'r ysgrifennydd. Dywedodd Elsi y byddai'n hapus i glywed syniadau da i wella'r dref.

Talwyd y diolchiadau gan Dilys Godfrey am noson ddiddorol yn cyfuno'r hanesyddol a'r cyfoes. Bydd yr Urdd yn cyfarfod ar y 9fed o Ebrill i drefnu'r rhaglen nesaf. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn Festri Brondeifi am 7:30y.h.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Ieuan a Gaynor, Glyn Teifi ar ddathlu eu Priodas Aur ddechrau mis Mawrth. Iechyd da i chwi eto am flynyddoedd lawer eto.

Cylch Cinio

Ar y pumed o Fawrth, cafwyd nyth y dryw o nosweth pan gyfarfu Cylch Cinio Llanbedr-Pont- Steffan i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Profiad unigryw oedd cyrraedd Gwesty'r Grannell a chlywed bwrlwm o Gymreictod i'ch croesawu ac yn dilyn, gwresogrwydd cwmni clos.

Cyn croesawu'r cwmni, mynegodd y Llywydd Y Parch John Emrys Jones ein cydymdeimlad dwys â'n cyd aelod, y Bnr Richard Marks, ar farwolaeth ei fam. Trist oedd cofio nad oedd ond byr amser pan ddanfonwyd ein llongyfarchiadau iddi ar gyrraedd ei chan mlwydd oed.

Wedyn, dywedodd y Llywydd ei fod yn falch o weld dros hanner cant o aelodau, cyn aelodau a'u gwesteion wedi dod ynghyd i fwynhau ac i ddathlu ein Cymreictod.

Amser wedyn i fwynhau gwledd o ginio -blas i foddhau'r mwyafr barus - nid fod neb felly yn ein plith!

Yn ôl yr hen ddywediad "diwedd y gân yw y geiniog" ond ar y nosweth ddelfrydol hon diwedd y ginio oedd y gân. Fe'n digonwyd unwaith eto gan leisau swynol Côr Merched Corisma a chyflwynwyd nifer o ganeuon gwladgarol yn addas i'r achlysur ac roedd hynny yn bodloni'r cwmni. Diolch i'r Côr o dan arweiniad medrus Carys Lewis am eu cyfraniad ac am greu sain mor gyfoethog. Uchel fu'r galw am ragor gan y gynulleidfa. Diolch hefyd i Lena Daniel am gyflwyno'r eitemau yn ei ffordd unigryw a chartrefol ei hun. Cyn dod ymlaen i ganu roedd y merched wedi gwneud fideo o'u hunain yn yfed llaeth a hynny er mwyn cefnogi ymgyrch y ffermwyr llaeth am brisiau teg. Mae'r wybodaeth i gyd ar facebook.

Diolchodd y Llywydd iddynt yn wresog. Cyn ymadael â'i swydd, diolchodd i swyddogion y tymor am eu gwaith ac i'r aelodau oll am eu cefnogaeth.

Yn olaf, cafwyd y ddefod syml o drosgrwyddo'r llywyddiaeth sef y tlws a'r "gavel" i afael ein llywydd newydd, yr Athro Densil Morgan.

Diolchodd ef am yr anrhydedd bersonol ac i'w rhagflaenydd am oruchwylio cyfnod llwyddiannus yn hanes y Cylch Cinio.

Gadawodd pawb gyda chofion diddan dros ben am noson o gwmni o gân ac o Gymreictod. Efallai i ambell un gael pwl o hiraeth wrth ddod yn ôl neu uno o'r newydd ond mae'r Cylch yn awyddus i groesawu ffrindiau a oedd ag unrhyw gysylltiad yn y gorffennol i ddathlu gyda'n gilydd Wyl ein Nawddsant. Mae yna groeso cynnes iawn hefyd i aelodau newydd.

Cydymdeimlad

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mrs Barbara Jones, 12 Teras Peterwell yn ystod y mis. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn

Llanbedr Pont Steffan

gyda'i gŵr John a'r teulu i gyd yn eu colled am un a oedd mor annwyl gan bawb. Preifat fu ei hangladd yng nghapel Soar, Llanbedr.

Shiloh a Soar

Daeth cynulleidfada deilwng ynghyd nos Wener Mawrth 13 i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant a hynny drwy gynnal ein cawl a phwddin reis arferol. Estynnodd y Llywydd Huw Jenkins groeso cynnes i bawb ac yn enwedig i Gymdeithas Ddiwylliadol Aberaeron a oedd wedi ymuno gyda ni ar yr achlysur arbennig yma, a braf oedd cael eu cwmni. Y gŵr gwadd eleni oedd yr amryddawn Lyn Ebenezer a chyfeiriodd y Llywydd ato fel person o aml ddoniau. Mae'n ymddiddori mewn barddoniaeth a gwyddom amdano fel llenor toreithog – yn wir y mae wedi ysgrifennu wythdeg o lyfrau gan gynnwys nifer o hunangofiannau o gymeriadau mwyaf amlwg a lliwgar Cymru. Y diweddaraf ar waith yw hanes bywyd Picton Jones gyda'r enw bachog "Plu yn fy Het". Edrychwn ymlaen yn eiddgar.

Seliodd Lyn ei araith ar y testun Diniweidrwydd a chyfeiriodd yn bennaf at wreiddioldeb a hiwmor nifer o gymeriadau yn ei filltir sgwâr a thu hwnt. Cafodd Niclas y Glais ddylanwad ar ei fywyd ac roedd ganddo atgofion melys am ei rieni yn enwedig gwleidyddiaeth ei dad a oedd yn sosialydd mawr. Llwyddodd y siaradwr i blethu'r llon a'r lleddf yn gelfydd iawn mewn araith a erys yn hir yn y cof.

Twynog Davies gafodd y pleser o ddiolch i'n gwestai a mynegodd ein gwerthfawrogiad am noson ddiddorol a difyr ac am ein hatgoffa o hiwmor a gwreiddioldeb nifer o gymeriadau cefn gwlad y gorffennol. Diolchodd Twynog hefyd i'r gwragedd am baratoi gwledd ar ein cyfer o dan gyfarwyddyd Eurwen, a phawb wedi eu digoni. Cyn dod â'r noson hynod lwyddiannus i ben, cyfeiriwyd at gyfraniad y Llywydd Huw Jenkins a diolchwyd iddo am lywio gweithgareddau'r flwyddyn mor arbennig ac estynnwyd ein dymuniadau gorau i'r Llywydd newydd, Philip Lodwig. Atebodd Huw drwy ddiolch am y gefnogaeth a'r cydweithio hapus gydol y flwyddyn.

Golygydd newydd i'r Traethodydd

Llongyfarchiadau i'r Athro Densil Morgan Y Gilfach ar gael ei benodi yn olygydd newydd i'r Traethodydd. Cafodd hefyd y fraint o bregethu yn Oedfa Ddathlu Gŵyl Ddewi Cymry Llundain ar Fawrth 1af. Roeddynt yn dathlu 300 mlwyddiant y bregeth gyntaf Gymraeg i'w thraddodi yno yn Eglwys St Paul, Covent Garden.

Gwellhad Buan

Yn ysbyty Glangwili mae Mrs

Luned James, Ael y Bryn, Heol Maestir wedi bod yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

Pen-blwydd Hapus

Pen-blwydd Hapus i Lowri Elen, Glennydd, Stryd Newydd sy'n 18 ar 17 Ebrill, gyda llawer iawn o gariad wrth Dad, Mam, Tomos a'r teulu oll.

Merched y Wawr

Ar Fawrth y 9fed croesawyd aelodau o Gangen Merched y Wawr Felinfach atom i ddathlu Gŵyl Ddewi. Paratowyd lluniaeth ar eu cyfer gan y pwyllgor a mwynhawyd y wledd gan bawb.

Ar ôl bwyta, bu aelodau Felinfach yn ein diddanu drwy ganeuon, adroddiadau amrywiol a diddorol gan gynnwys gwaith Idwal Jones a oedd â chymaint o gysylltiadau â Felinfach a Llanbedr. Roedd yn bleser clywed eu perfformiadau. Diolchwyd yn gynnes iddynt gan Dorothy James am noson hwyliog.

Enillwyd y raffl oedd Eryl, Delyth, Doreen a Gillian. Croesawyd aelod newydd i'n plith sef Lena Daniel. Pleser oedd cael gwybod fod Ann Morgan wedi bodloni ymgymryd â swydd Is Lywydd. Bydd llawer o'r aelodau yn cymryd rhan mewn nifer o chwaraeon sirol yn ystod y mis nesaf. Diolchwyd i Gwyneth a Veronica am ymweld â chartref preswyl Hafandeg y mis yma a chytunodd Janet a Rhiannon i ymweld y mis nesaf. Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth Sefydliad y Merched Coedmor i ymuno â hwy ar 20fed o Fawrth. Cytunodd Ann Morgan ac Aerwen Griffiths i'n cynrychioli.

Trist oedd clywed oriau'n unig yn dilyn ein cyfarfod am farwolaeth sydyn mam ein Llywydd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mary a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Beti a Goronwy Evans, Y Mans, Stryd Newydd ar enedigaeth eu hŵyr newydd Thomas Owain (Tom), mab i Louise a Rhidian, Y Felin, Llanharan.

Diolch

Hoffai Emyr Richards, Goedwig, ddiolch o galon i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at ymchwil y galon ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Codwyd £930 at yr elusen.

Dymuna John, Geraint, Bethan ac Emyr ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn marwolaeth Barbara. Diolch hefyd am y llu cardiau, negeseuon, rhoddion, ac am yr atgofion hapus a rannwyd gyda'r teulu amdani. Gwerthfawrogrir hyn yn fawr.



Roedd cynnwrf yng Nghartref Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan wrth i'r diddanwr lleol Dewi Pws gyflwyno siec o £1,001 (mil ac un o bunnoedd) ar ran Clwb Golff Cwmrhedneuadd Pentregat i reolwraig Hafan Deg, Dilys Megicks, a'r is-reolwraig, Rachael Jones. Yn cynrychioli'r clwb roedd y trysorydd Peter Kellam a Chaptin y Clwb 2014 Hywel Thomas. Hoffai bwyllgor Clwb Golff Cwmrhedneuadd ddiolch i'r holl aelodau a'u gwesteion a gyfrannodd mor hael drwy'r flwyddyn diwethaf.

Yn y Llun - Chwith i'r Dde: Capten 2014 Hywel Thomas, Rheolwraig Hafan Deg Dilys Megicks, Is-reolwraig Rachael Jones, Dewi Pws, Trysorydd Cwmrhedneuadd Peter Kellam.

Cymdeithas Hanes

Medwyn Parry o Lanfihangel-y-Creuddyn oedd siaradwr gwadd mis Mawrth, yn gweithio i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ers 1984, ac yn ei amser sbâr yn teithio o gwmpas y wlad ar ei feic modur.

Wrth ymweld ag Eglwys Colwinston yn ystod 2013, sylwodd ar blac yn cofnodi'r bechgyn a wasanaethodd yn y Rhyfel Mawr. Daeth i ddeall fod bechgyn yr ardal i gyd wedi dychwelyd yn ddiogel o'r ffôsod, a galwyd y lle yn 'Bentref Diolchgar'. Gan nad oedd wedi clywed am y term hyn o'r blaen, sbardunwyd ef i ganfod a oedd rhagor o bentrefi tebyg, a darganfod fod 51 ohonynt, rhai yn ddwbwl ddiolchgar am na chollwyd dim o'u bechgyn yn yr Ail Ryfel Byd chwaith.

Penderfynodd Medwyn Parry fod yn rhaid gwneud rhywbeth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â'r rhain, a'r canlyniad oedd trefnu taith feicio i'r holl bentrefi - taith o dros 2,500 o filltiroedd, a'i chyflawni mewn naw diwrnod. Roedd yr amserlen mor dynn, dim ond deugain munud y gallent aros ymhob man, ond roedd y croeso a'r lluniaeth a baratowyd iddynt yn anhygoel.

Cyflwynwyd tystysgrif a phlac llechen i bob pentrefi, yn cofnodi eu bod yn Bentrefi Diolchgar, ac mae llawer o'r mannau hyn wedi ychwanegu'r term ar eu harwyddion wrth gyrraedd y pentref. Drwy gyfrwng lluniau, gwelwyd sawl man y bu Medwyn a'i ffrindiau yn ymweld â nhw. Gosodasant darged i gasglu £51,000 tuag at waith y Lleng Brydeinig, ond erbyn hyn

mae'r swm wedi cyrraedd £210,000. Llawn bwysiced yw'r ffaith fod gan y pentrefi yma gofnod o wasanaeth eu bechgyn, a rhywle i ymgynnull o'i gwmpas i ddiolch am i'w meibion ddychwelyd yn ddiogel.

Diolchwyd yn gynnes i Medwyn Parry gan y Cadeirydd, Selwyn Walters.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 21ain, pan fydd yr Athro David Austin yn creu Llinell Amser ar hanes Llanbedr. Y cyfarfod yn Hen Neuadd y Brifysgol am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb.

Amgueddfa Llanbedr

Daeth nifer i ymweld â'r Amgueddfa yn ystod mis Mawrth, gan ddangos diddordeb mawr yn y casgliadau sydd i'w gweld yno - yn enwedig yr arddangosfa sy'n cofnodi'r stesion a'r rheilffordd drwy Llanbedr. Mae ffilm i'w weld o'r trêrn yn teithio rhwng Pencader a Stesion Strata, yn ogystal â mynd i lawr dyffryn Aeron heibio'r ffatri laeth yn Felinfach, ac ymlaen am Aberaeron.

Galwch i mewn, a byddwn yn falch o glywed y storïau sydd gennych am eich atgofion chithau. Hefyd, os oes gan rywrai hen eitemau yr hoffech eu rhoi neu eu benthgyl i'r amgueddfa, dewch â nhw, neu mynnwch air ag un o'r gwirfoddolwyr yn gyntaf. Rydym ar agor dyddiau Mawrth, Iau a Sadwrn, 10-4 o'r gloch.

Diolch

Dymuna Mary, Wynne a'r teulu, Coach House, Heol Maestir, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a

Llanbedr Pont Steffan



Sefydliad y Galon Llanybydder a Llanbed

Melfyn Evans; John Harries Jones, Llywydd; Ann Davies, Trysorydd; Dave Smith, Cadeirydd; Jennie Bracher, Ysgrifenyddes; Selwyn Walters a Keith Evans. Yn ddiweddar cyflwynodd Keith Evans ddiffibrillydd i Selwyn Walters, Llywydd Clwb Rygbi Llanbedd ac hefyd Melfyn Evans yn cyflwyno siec o £1,080 i Sefydliad y Galon – y ddau yn feibion i'r diweddar Elgan Evans, adeiladwr o Lwynfeilig / Dyffryn, Llanbed.

ddangoswyd iddynt yn eu galar o golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl sef Sally Lewis. Hefyd, diolch o waelod calon i'r Matron a'r staff i gyd yng Nghartref Hafan Deg am eu gofal arbennig a thyner o mam yn ystod y chwe mlynedd diwethaf. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mrs Enfys Jones, Yr Onnen, Heol Maestir, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati tra roedd yn Ysbyty Glangwili ac hefyd ar ôl dychwelyd adref. Diolch yn arbennig i Eleri a fu mor garedig.

Aelwyd yr Urdd

Cyfarfu'r aelodau ar 24 Chwefror i fwynhau noson amrywiol yng ngofal Rhydian, Swyddog Cynorthwyol yr Urdd yng Ngheredigion, ac fe'i croesawyd gan Elan. Treuliwyd rhan gyntaf y noson yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm ond uchafbwynt y noson yn bendant oedd chwarae'r gêm cyrlio (curling). Cafwyd cystadlu brwd rhwng yr aelodau. Diolchodd Brenig i Rhydian am noson ddiddorol ac i Janet a Rosaline am gadw trefn.

Mae'r aelodau bob amser yn edrych ymlaen at noson yng nghwmni Wyn a Geraint ac fe'u croesawyd atom gan Geinor Medi ar 10 Mawrth. Rhannwyd yr aelodau i ddau dîm a chafwyd llawer o sbri yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gêmiau egniol gyda phawb yn gwneud eu gorau. Ar ddiwedd y nos tîm Y Cathod Hapus oedd ar y brig. Diolchodd Megan i Wyn a Geraint am drefnu noson mor ddifys ar ein cyfer. Dymunodd Janet yn dda i bawb oedd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Llwyddiant Aelwyd ac Adran Llanbed

Daeth llwyddiant i ran aelodau'r

Aelwyd a'r Adran yn Eisteddfodau Rhanbarthol yr Urdd a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Dyma'r canlyniadau:

Unawd Bl 10 a than 19 oed 1af Lowri Elen, Llefaru Bl 10 a than 19 oed 2ail Lowri Elen, Unawd allan o sioe gerdd Bl 10 a than 19 oed 2ail Lowri Elen, Deuawd Cerdd Dant Bl 9 ac iau 2ail Elan a Beca, Parti Deusain Bl 9 ac iau 1af Aelwyd Llanbed, Grŵp Llefaru Bl 9 ac iau 1af Aelwyd Llanbed, Parti Unsain Bl 6 ac iau 1af Adran Llanbed, Grŵp Llefaru 3ydd Adran Llanbed, Côr 2ail Adran Llanbed.

Mae dyled yr aelodau yn fawr i Rhiannon ac i Elin am roi o'u hamser i'w hyfforddi, ac i Lois am gyfeilio. Gwerthfawrogi eu gwaith a'u hamynedd yn fawr iawn! Diolch hefyd i Llinos a Janet am eu cymorth wrth drefnu'r ymarferion.

Felly llongyfarchiadau calonnog i bawb a phob lwc i Lowri Elen a'r partïon yn Eisteddfod Genedlaethol Caerffili a'r cylch ddiwedd Mai.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad diffuant a phawb sydd wedi cael profedigaeth yn ystod y mis.

Noddfa

Braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i oedfa arbennig yn Noddfa yng ngofal yr Ysgol Sul ar Sul y Mamau. Yn ôl yr arfer, lluniwyd yr oedfa gan Janet a chymerwyd rhan ar lafar ac ar gân gan 19 o blant a phobl ifanc, a'r lleiaf i'r hynaf ohonynt yn cyflawni'u gwaith yn gampus. Cafwyd cyfle i werthfawrogi cyfraniad gwerthfawr ein mamau, i ryfeddu at wyrth y gwanwyn sef tymor y deffro a'r bywyd newydd, ac i gofio a dathlu digwyddiadau'r Pasg.

Croesawyd pawb gan Lisa a hi



Plant a phobl ifanc Noddfa a gymerodd ran mewn oedfa arbennig ar Sul y Mamau.

hefyd offrymodd y weddi agoriadol. Cyhoeddwyd yr emynau gan Gwenllian, Osian Roberts, Sion, Rhys Tom a Ffion a'r llefarwyr oedd Elan, Beca, Dafydd, Rhys, Osian Jones a Tomos. Mwynhawyd cân swynol gan Lowri Elen, datganiad hyfryd o 'Cariad Mam' gan Sioned a Ffion, ynghyd â grwpiau canu'r aelodau hynaf gyda Gwenllian, Dafydd, Elan, Beca a Lisa yn cyflwyno pennill yr un. Pleser bob amser yw gwrando ar y plant lleiaf, ac nid oedd y tro hwn yn eithriad. Bu Sion Ifan, Tudur, Rhun a hefyd Grace - oedd yn cymryd rhan am y tro cyntaf - yn canu ac yn adrodd gan roi o'u gorau glas ac yn amlwg wrth eu boddau'n

rhoi gwên ar wynebau pawb.

Cyfeiliwyd i'r canu cynulleidfaol gan Ann Morgan a chyfeiliwyd i'r bobl ifanc gan Alwena a Janet.

Diolchodd ein Gweinidog i'r plant a'r bobl ifanc am wneud eu gwaith gyda'r fath raen, i'r organyddion am eu gwasanaeth, i'r rhieni am eu cefnogaeth i'r Ysgol Sul a'u cymorth parod i Janet.

Roedd y plant wedi addurno plât yr un yn lliwgar iawn fel anrheg i'w mamau ac fe'u cyflwynwyd iddynt ar ddiwedd yr oedfa. Wrth droi tuag adref roedd pawb yn uchel eu canmoliaeth o gyfraniadau'r bobl ifanc ac wedi derbyn bendith yn yr oedfa.

Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd



Grŵp Hip Hop/Stryd/Disgo Bl. 7-9 – Aelwyd Llanbedd 2il.

Diolch

Dymuna Carys Jones, Undergrove, ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau hael, boed yn amser, ariannol, gwobrau raffl neu'n adnoddau i'r ysgol allan yn y Wladfa ar gyfer ei thaith i Batagonia.



Tra yn Patagonia, treuliodd amser yn Eisteddfod Chebut, ymweld ag Ysgol Gymraeg yn ogystal â Tŷ Te Nain Maggier lle y cwrddodd â ffrindiau oes. Roedd y rhain i gyd yn brofiadau bythgofiadwy ac ni fyddai wedi medru'u profi heb eich haelioni chi, a'r cymorth gan Fudiad yr Urdd.



Pryd Pasg Hapus

Beth am gael y teulu a ffrindiau draw dros y Pasg eleni i fwynhau pryd arbennig? Mae tipyn y medrwch ei baratoi ymlaen llaw, sydd bob amser yn help er mwyn ymlacio a mwynhau gyda'ch gwesteion - ac i osgoi'r panic munud olaf!

Mae'r cwrs cyntaf yn un i rannu a phigo gyda gwydriad o win. Rhaid cael cig oen i'r prif gwrs, a wyau yn naturiol yw prif gynnwys y pwdin, trolen meringue.

Pob hwyl felly gyda'r pryd Pasg, a Phasg Hapus i chi gyd

Gareth

Wyau Pasg Cwrs Cyntaf

Cynhwysion

8 wy

1 llwy de o fwstard

4 llwy fwrdd mayonnaise

Ychydig paprika

Cennin sifi wedi eu torri'n fân



Dull

1. Berwch yr wyau am 7 munud, yna gadewch iddynt oeri mewn dŵr oer.
2. Pliciwch yr wyau, torrwyd yn eu hanner, a chymysgwch y melynwy gyda'r mwstard a'r mayonnaise.
3. Rhowch y llenwad yn ôl yn y gwyn ŵy. Ysgeintiwyd â'r cennin sifi a'r paprika.

Cig Oen â Chrwt

Cynhwysion

4 golwythen cig oen (neu mwy, yn dibynnu ar nifer y gwesteion)

2 llwy fwrdd jam cwrens coch

100g briwsion bara

50g almwnau wedi'u tafellu

1 llwy de o berlysiau sych

Croen 1 oren



Dull

1. Gosodwch bapur gwrthsaim ar hambwrdd pobi.
2. Seliwch y cig oen mewn padell ffrio - tua 3 munud pob ochr - yna gosodwch ar yr hambwrdd pobi.
3. Brwsiwch â'r jam; cymysgwch y cynhwysion eraill a gosodwch ar ben y cig oen.
4. Pobwch am tua 20 munud 180 C, 350 F, Nwy 5
5. Gweinwch â llysiau.

Trolen Meringue a Lemwn

Cynhwysion

3 gwyn wy

150g siwgr mân

Wyau bach siocled

Y llenwad: hufen wedi'i guro a hanner pot o ceuled lemwn



Dull

1. Leiniwch dun swiss roll â phapur gwrthsaim.
2. Curwch y gwyn wy, ac yn raddol ychwanegwch y siwgr.
3. Lledaenwch dros y tun. Pobwch am 13 munud 190 C, 170 Fan, nes ei fod yn euraidd. Gadewch i oeri.
4. Gwaredwch y papur gwrthsaim. Gwasgarwch y ceuled lemwn dros y meringue, yna'r hufen.
5. Rholiwch, ac addurnwch â wyau siocled.



Cystadleuaeth Diwrnod y Llyfr yn Ysgol Bro Pedr (Adran Hŷn). O'r chwith: Cyntaf - William ac Evan; ail Talia a Gwen yn drydydd.

Ras yr Iaith

Enillwyr Grant £4,000 Ras yr Iaith

Ar 20 Mehefin 2014 fe gynhaliwyd Ras yr Iaith – ras di-gystadleuaeth gyfnewid i godi hyder a chodi arian at yr iaith Gymraeg <http://rasyriaith.org>. Cefnogwyd y Ras gan gwmnïau, unigolion a sefydliadau a dalodd £50 i noddi 1 km o'r Ras a gynhaliwyd rhwng Machynlleth ac Aberteifi. Wedi'r holl drefnu a rhedeg roedd gan y Ras £4,000 i'w ddosbarthu ar ffurf grantiau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y cymunedau a gymerodd rhan yn y digwyddiad – ardal Machynlleth, y cyfan o Geredigion ac ochrau Dyffryn Teifi o Sir Gâr a Sir Benfro.

“Roeddem ni'n hynod hapus gydag amrywiaeth a dyfeisgarwch y ceisiadau a dderbyniwyd. Yr uchafswm oedd ar gael i unrhyw un gais oedd £750. Mae rhai ceisiadau wedi derbyn hynny ac efallai wedi derbyn symiau llai. Roeddem ym falch i weld bod trawstoriad o ddigwyddiadau, daearyddiaeth ac ymateb i wahanol sectorau o'r gymdeithas. Wedi'r holl waith a hwyl wrth redeg i godi arian i'r Ras rwy'n siŵr y bydd y rhedwyr a'r noddwyr yn falch iawn gyda'r ymateb a'r syniadau ar sut i wario'r arian grant,” meddai Siôn Jobbins, Cadeirydd Ras yr Iaith.

Dyma'r ceisiadau a fu'n llwyddiannus:

Y Groes Goch, canolfan Aberteifi - £750 tuag at cynhyrchu deunydd marchnata yn y Gymraeg a denu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Canolfan Glyndwr, Machynlleth - £750 – tuag at cynhyrchu sioe a deunydd i ysgolion ar hanes Owain Glyndwr

Theatr Troed y Rhiw, Felin-fach - £500 – tuag at cynnal gŵyl ddrama gyntaf y cwmni theatr

Ioga i Bawb, Aberystwyth - £300 – cynnal cyfres o weithdai ioga yn y Gymraeg ac yn arbennig at safon dysgwyr

Cangen Hoelion Wyth Cors Caron - £300 – cynhyrchu deunydd i ddenu aelodau newydd a hyrwyddo digwyddiadau y gymdeithas Gymraeg hon

Rali CFFI Ceredigion, Llandewi Brefi - £300 – nawdd tuag at cynnal Rali flynyddol y Ffermwr Ifainc Ceredigion gyda phwyslais ar adloniant gyfoes Gymraeg

Gŵyl Tregaroc, Tregaron - £300 – nawdd tuag at cynnal gŵyl roc Cymraeg di-dâl yn Nhregaron yn haf 2015

UMCA, Eisteddfod Ryn-golegol - £300 – nawdd tuag at cynnal Eisteddfod Ryn-golegol myfyrwyr Cymraeg a gynhelir eleni yn Aberystwyth

Gŵyl Nôl a Mlân, Llangrannog - £300 – nawdd tuag at cynnal gŵyl roc Gymraeg di-dâl yn Llangrannog yn haf 2015

Cwmni Cymunedol Cletwr, gogledd Ceredigion - £200 – cyfraniad at brynu llyfrau Cymraeg i'w rhoi yn y siop a chaffi gymunedol ym mhentref Tre'r Ddôl.

Sarn Helen



Dewiswyd pedair o ferched y clwb i gynrychioli gorllewin Cymru yn ras traws gwlad McCain yn Birmingham, ras dan 13 Beca Mai Roberts yn gorffenn mewn 15:19, dan 15 Grace Page 25:07, dan 17 Caitlin Page 24:09 a Ffion Quan 24:20.

Rhedwr cyntaf o'r clwb i orffen ras Rhayader 20 oedd Carwyn Davies 2 awr 17 munud 21eiliad, Michael Davies 2:19:26, Glyn Price 2:29:56, Carwyn Thomas 2:40:53, Huw Price 2:43:02, George Eadon 2:47:44, Mitchell Readwin 3:13:05, Terry Jones 3:16:21.

Ras 10K Gŵyl Dewi yn Llanddewi Brefi Michael Davies 39:55, Andrew Davies 40:45, Kevin Hughes 41:02, Sion Price 41:59, Sian Roberts-Jones 45:34, Dorian Rees 47:45, Eleri Rivers 47:42, Dee Jolly 50:12, Mitchell Readwin 51:07, Helen Willoughby 1:08:03.

Cystadlodd Caryl Davies yn ras Trafford 10K ac yn rhedeg ei hamser gorau mewn 43:39, ac hefyd yn ras fynydd Bwlch Maesgwm mewn awr a phump deg phedwar eiliad.

Gorffennodd David Thomas hanner marathon Llanelli mewn 88 munud 44 eiliad, a Dawn Kenwright 1 awr 41 munud 05 eiliad.

Cystadlodd Nigel Davies yn ras Barry 40, ras ar drac ultramarathon o ddeugain milltir; torrodd Geoff Oliver yn y categori dynion 80 dair record y byd – 30 milltir, 30ks, a chwech awr. Gorffennodd Nigel yn yr wythfed safle mewn amser gwyd o 5 awr 18 munud a 2 eiliad, a'r cyntaf o blith dynion 40.

O.N. Diolch yn fawr iawn i Caryl Davies am fod yn Ohebydd y Wasg i Glwb Rhedeg Sarn Helen dros yr wyth mlynedd diwethaf.

Llanfair Clydogau

Cwis

Ar nos Sadwrn, Mawrth 14eg, cynhaliwyd cwis yn y neuadd o dan ofal y Cynghorydd Odwyn Davies gydag Ann, ei wraig, yn ei gynorthwyo. Hysbysebwyd y noson fel cwis teuluol er mwyn denu plant i gymryd rhan ac yn wir daeth llawer ohonynt i gyfoethogi'r noson. Cawsom gwestiynau'n ymwneud ag ardal Llanfair, anagramau, a lluniau i'w dadansoddi. Cafodd y plant gwestiynau oedd yn addas iddynt hwy. Roedd pawb wedi mwynhau y noson, a diolch i Odwyn ac Ann am y trefniadau.

Marchnad 'Lunar'

Da oedd gweld Marchnad 'Lunar' yn cael ei chynnal unwaith eto yn y pentref yn dilyn seibiant o sawl mis. Daeth nifer o bobol i werthu a llawer mwy i edrych, prynu a chymdeithasu. Gobeithir bydd marchnad eto cyn bo hir.

Cydymdeimlad

Hoffem gydymdeimlo â Barbara Tucker, Llethr Villa, sydd wedi colli ei brawd yn ddiweddar. Pob bendith iddi.

Sioe y Pentref

Mae trefniadau yn dal i fynd yn eu blaen ac mae'r pwyllgor yn

brysus yn paratoi rhaglen. Bydd y sioe yn agored i blwyfolion Llanfair a Chellan ac wyrion i'r rhai sy'n byw yn un neu'r llall o'r pentrefi. Cyhoeddir rhagor o fanylion cyn bo hir.

Liz Mercer

Hoffem ddymuno'n dda i Liz Mercer, Gelli Ddyfod, sydd newydd symud o'r pentref i Swydd Kent i fod yn agosach at ei theulu. Mae Liz wedi byw yn ein plith ers 21 o flynyddoedd ac yn yr amser hyn mae wedi bod yn weithgar dros ben gyda phob agwedd o fywyd y pentref, yn enwedig gyda'r gwaith o adnewyddu'r neuadd. Mae hefyd wedi bod yn glerc i Gyngor Cymuned Llanfair a Chellan. Byddwn yn gweld ei heisiau, ei gwaith a'i chwmni, ac rwy'n siŵr pan fydd yn ymweld â'r pentref yn y dyfodol bydd croeso cynnes iddi yma. Pob hapusrwydd iddi hi a'i mam yn Swydd Kent.

Gwellhad Buan

Dymunwn yn dda i David Evans, Ty Newydd/Iscoed sydd yn dioddef ar ôl iddo gwympo yn y tŷ beth amser yn ôl. Er ei fod yn well, mae mewn tipyn o boen o hyd. Dymuniadau gorau.



Sbwriel Annerbyniol

Siomedig yw gweld bod rhywun neu rywrai wedi dympio hen deiars mewn dau fan yn y pentre yn ystod y pythefnos diwethaf - rhai ar ochor yr hewl fynydd o Landdewi i Lanfair ac hefyd ar Sarn Helen yn agos i grid yr anifeiliaid. Mae hyn yn hollol annerbyniol yng nghanol prydferthwch ein hardal. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cael gwared y rhai o Lanfair, a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi cael gwybod am y lleill. Mae'r Heddlu hefyd wedi cael gwybod.

Fel rhan o'r dathliadau 60 mlynedd **Undeb Amaethwyr Cymru** eleni cynhelir Noson Lawen yng Ngholeg Llanbed, nos Sadwrn Mai 23ain. Bydd elw'r noson yn mynd at elusen Llywydd yr Undeb am eleni, sef Tŷ Hafan a Thŷ Gobaith.

Arweinir y noson gan Is-Lywydd UAC, Brian Walters, Clynmelyn. Yr artistiaid yw: Clive Edwards, Hendy Gwyn; Ifan Gruffydd, Tregaron; Aled ac Eleri Edwards, Cilycwm; Eirlys Myfanwy, Llanelli; CFFI Llangadog; Rhys a Fflur Griffiths, Bethania a Meibion y Mynydd, Ponterwyd.

Llywydd y noson yw Elin Jones AS, ac mae Emyr Jones Llywydd UAC yn ŵr gwadd. Bydd y noson yn dechrau am 7.30 y.h. Pris y tocynnau: oedolion £10 a plant £4. Mae'r tocynnau ar werth yn ein swyddfeydd – Aberaeron 01545 571222, Caerfyrddin 01267 237974 a Llambled 01570 422556. Croeso i bawb.

Pumsaint

TAITH URDD PATAGONIA - Sara Mair a Carys Haf (Caio)

Rydym wrthi'n paratoi ar gyfer Cyngerdd ac Ocsiwn yn Neuadd y Coroniad Pumsaint nos Sadwrn 18fed Ebrill am 7.30 o'r gloch. Y bwriad yw codi arian at y trip bythgofiadwy i ni; cawsom ein dewis ar ran yr Urdd i ymweld â Phatagonia. Rydym yn rhan o dîm o 15 o Gymru fydd, ynghyd â Theatr Cymru Clwyd, yn paratoi Sioe Gerdd ar gyfer dathlu 150 mlynedd oddi ar i'r Mimosa hwylio draw i Batagonia. Gan ein bod yn ddwy chwaer mae dwbl y gost gennym i'w godi, felly mae pob ceiniog yn mynd i fod yn gymorth i ni. Yn y gyngerdd ar y 18fed Ebrill mae gennym yr artistiaid canlynol - Aled Hall, Sara Mair a Carys Haf, Côr Corisma, Rhian Davies (Pencader), Eirwyn Richards, Tudur Phillips (Clocsiwr), Deian Thomas a Mic a Moc (Glyn Jones ac Emyr Richards). MC: Terwyn Davies, BBC Radio Cymru. Llywydd: Mr Lyn Richards, Maesglas. Tocynnau £10. Cysylltwch â Sioned i archebu tocynnau 01558 650252 neu 07886316403. Bydd elw y noson yn mynd tuag at gronfa Patagonia Sara Mair a Carys Haf.

Mae gennym 600 o tocynnau raffl i'w gwerthu am £1 y tocyn neu £5 y llyfr o swyddfa ganolog yr Urdd.

Os oes unrhyw un eisiau cyfrannu ar gyfer ein trip neu rywbeth at ein ocsiwn, byddem yn dra diolchgar. Ein cyfeiriad yw Hen Swyddfa Post, Caio, Llanwrda, Sir Gâr, SA19 8RE.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



I sir fel Ceredigion, mae trafniadaeth gyhoeddus yn hollbwysig – ar gyfer galluogi pobl i gyrraedd gwaith ac apwyntiadau, ar gyfer twristiaeth a hamdden, ac er mwyn yr amgylchedd. Bu rhai gwelliannau wrth gwrs. Yn sgil ymadawiad cwmni bysiau Arriva, llwyddwyd i gael gwasanaethau gwell rhwng Aberaeron, Llambled a Chaerfyrddin, a rhwng Aberteifi a Hwlfordd. Roeddwn yn falch iawn hefyd o ymuno â'r Gweinidog Trafnidiaeth yn ddiweddar yng ngorsaf drenau Aberystwyth i gael manylion am y gwasanaeth amlach fydd mor bwysig i'r dre a'r Brifysgol. Ond mae nifer o frwydrau i'w ymladd o hyd. Rwy'n gwybod fod pobl yn ne Ceredigion yn dioddef anghyfleustra tost oherwydd y diffyg gwasanaethau bws ar ddydd Sul. Mae'n sefyllfa hollol annerbyniol fod dim posib teithio rhwng Aberaeron ac Aberteifi ar y Sul. Rwyf wedi codi'r materion hyn gyda'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, a byddaf yn parhau i bwyso am welliannau. Da yw gweld fod pwysau yn gallu talu ffordd, wrth i wasanaeth y Cardi Bach gael ei adfer. Diolch yn fawr i grŵp ymgyrch diwyd lleol a fu o gymorth mawr i ddwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i roi cymorth ariannol i wasanaeth sydd mor bwysig i'r diwydiant ymwelwyr a chymunedau arfordirol ardal Cei Newydd, Cwmtdu ac Aberporth. Yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus, rhaid hefyd rhoi anogaeth i bobl i gerdded lle bo hynny'n bosib. Bum yn cydweithio gyda rhieni a chynghorwyr lleol ar ymgyrchoedd i wella diogelwch plant sy'n cerdded i'r ysgol mewn sawl ardal. Mae'n dda gweld llwyddiant ar y gorwel yn Llanarth, Tal-y-bont a Chapel Bangor, a mwynheais siarad gyda phlant Ysgol Llanarth yn ddiweddar am sut y byddent yn elwa o groesfan mwy diogel ar yr A487. Parhau mae ymgyrchoedd tebyg ym Mhenparcau a llefydd eraill, ac felly hefyd yr ymgyrch i gwblhau'r llwybr troed a beicio rhwng Bow Street a Thal-y-bont. Roedd pawb yn disgwyl y byddai'r gwaith yma wedi hen gychwyn erbyn hyn, a byddaf yn parhau i gydweithio gyda phobl yn ardal Dole i sicrhau llwybrau mwy diogel ar hyd ein priffyrdd.

Diolch yn fawr



Mr Eirwyn Harries, Llandysul yn cyflwyno siec am £3,700 i Rhian Williams, Susan Morgan a Megan Foulkes; Nyrsys Marie Curie, er cof am ei annwyl wraig Ann. Derbyniwyd £3,400 er cof am Ann a hefyd £300 yn dilyn Gyrfa Chwist a gynhaliwyd yn Nhafarn Glanyrafon Talgarreg. Yn y llun hefyd y mae Megan Evans, Tafarn Glanyrafon a Richard Davies a fu'n derbyn y rhoddion er cof am Ann.

Drefach a Llanwenog



Eisteddfod Ysgol Llanwenog

Hafwen Davies enillodd y gadair yn Eisteddfod Ysgol Llanwenog am ysgrifennu cerdd am T. Llew Jones. Yn ail oedd Molly Greenfield a Elen Morgan, ac yn drydydd oedd Hannah Ayonadu, Harri Rivers, Jamie Jones, a Sara Thomas. Gweler y gerdd isod:

Fy Arwr - T Llew Jones

Gwallt cymen, trefnus heb flewyn
o'i le.

Dwy lygad fedrus fel tylluan ddoeth.
Gwen lydan fythgofiadwy fel enfys
wyneb i waered.

Edrychiad meddylgar drwy ei
sbechol hud.

Creu storïau dychmygol oedd ei
ddawn anhygoel.

Llwy o gawl cynnes yn gorlifo yw ei
gariad twymgalon.

Athro deallus a medrus ysgol
Tregroes.

Chwedlau enwog a'u diweddglu yn
ddirgelion pur.

Storiwr hapus llawn hwyl a sbri.
Ei feddwl oedd yn ifanc fel plentyn
direidus.

Awdur creadigol, addysgiadol a
ddathlodd can mlynedd llawn eleni.

Brenin Llenyddiaeth plant Cymru.

Hwn yn wir yw fy arwr i.

Ffug enw: Wncwl Robert

Y Gymdeithas Hŷn

Cyfarfu'r aelodau yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd ar yr 11eg o fis Mawrth: roedd 25 yn bresennol, a chroesawyd pawb gan Dilwen George. Yn anffodus roedd yr ysgol wedi bod heb wres drwy'r wythnos, ond darparwyd gwresogyddion yn y neuadd ar ein cyfer. Gan nad oedd gwres gan y plant yn yr ystafelloedd dosbarth, cyflwynwyd eu rhaglen adloniant i ni cyn ein cyfarfod busnes.

Croesawyd y Gymdeithas Hŷn i'r ysgol gan Mrs Gwyneth Davies, a hi fu'n cyflwyno'r plant a'u heitemau. Cafwyd eitemau gan y côr, partïon canu a llefaru, a'r gân actol i orffen, y cyfan wedi eu cyflwyno â graen, a'r plant i weld wrth eu bodd hefyd.

Diolchwyd i'r staff a'r plant i gyd gan Eifion Davies, a dymunodd yn dda iddynt yn Eisteddfod Sir.

Y cyfarfod busnes:

Cydymdeimlwyd â Mary Jones, Penrheol, wedi colli ei wncwl, a



Cylch Meithrin Gwenog

Plant Cylch Meithrin Gwenog yn edrych yn smart iawn yn eu gwisgoedd wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd y Cylch yn le prysur wrth i'r plant goginio cawl a welsh cakes a chreu gwaith celf lliwgar. Cafwyd mis bywiog gyda'r plant yn cwrdd a Mistar Urdd ar ddiwrnod coch, gwyn a gwyrdd a pharatoi anrhegion a chardiau ar gyfer Sul y Mamau. Mi fydd yr wythnosau nesaf hefyd yn llawn o fwrllwm y Pasg a gweithgareddau ar ein thema newydd sef anifeiliaid y fferm. Gweler lluniau uchod a isod.



dymunwyd gwellhad buan i Marna Jones, ac i bawb arall oedd yn anhwylyd ar y pryd.

Roedd Sulwen Lloyd newydd dathlu ei phen-blwydd, a llongyfarchwyd Tommy Williams ar ei erthygl sydd wedi ymddangos yn Clonc. Edrychir ymlaen yn eiddgar at gael rhagor o'i hanes.

Hwn oedd cyfarfod olaf sesiwn y gaeaf, ac edrychir ymlaen yn awr at deithiau'r haf. Bydd y trip cyntaf yn mynd i Aberhonddu, ddydd Mercher, Ebrill 8fed, i ymweld ag Amgueddfa'r Gwarchodlu Cymreig, ac yna cael sbel yn y dref, cyn dod nôl i Dafarn Jem am swper. Enwau i Yvonne 480590. Cafwyd syniadau ar gyfer y tripiâu eraill, cyn mwynhau lluniaeth wedi ei baratoi gan wragedd Seion, Capel y Bryn a Brynhafod, a diolchwyd iddynt yn gynnes gan Dilwen George.

Gwellhad Buan

Danfônwn wellhad llwyr a buan i Mrs Rhiannon Davies, Brookland, sydd wedi bod yn ysbyty Glangwili yn ystod yr wythnosau diwethaf.

CFFI Llanwenog

Fe fu'n rhaid i aelodau CFFI Llanwenog godi'n gynnar ddydd Sadwrn 7fed o Fawrth er mwyn cychwyn ar eu taith i Theatr y Grand yn Abertawe lle cynhaliwyd rownd derfynol cystadleuaeth panto'r CFFI. Wedi diwrnod y gystadlu brwd, llawer o chwerthin a mwynhau, llwyddodd y clwb ddod yn drydydd! Llongyfarchiadau i bawb oedd

ynghlŷn â'r cynhyrchiad.

Llongyfarchiadau hefyd i Meinir Davies a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Aelod Iau y sir yn ddiweddar, i Sioned Davies a gafodd ei hethol yn un o forwynion y sir, ac i Enfys Hatcher, brenhines newydd CFFI Ceredigion! Da iawn chi! Yn dilyn yr holl waith caled o ymbaratoi ar gyfer y panto, cafodd yr aelodau gyfle i ymlacio a mwynhau yng nghwmni'i gilydd yn ystod mis Mawrth, gyda steddod dafarn a chawl blasus, ymweliad addysgiadol i Dunbia, a sbort yn nofio yn Castell Howell. Ond roedd diwrnod pwysig arall i'r clwb ddydd Sadwrn 21ain o Fawrth, sef Diwrnod Siarad Cyhoeddus Cymru, ar safle'r Sioe Frenhinol yn Llanfair ym Muallt. Bu'n diwrnod hynod o lwyddiannus i'r clwb yn y Gymraeg a'r Saesneg: Meinir Davies, Twm Ebbsworth a Briallt Williams yn cipio'r drydedd wobwr fel tîm o dan 16, Sioned Davies, Sioned-Fflur a Meleri Davies yn dod yn gyntaf fel tîm yng nghystadleuaeth y seiat holi Saesneg o dan 21, Lowri Davies a Menna Williams yn y tîm a ddaeth yn drydydd yn y Gymraeg o dan 26, ac Enfys Hatcher yn y tîm a ddaeth yn fuddugol yn yr adran Saesneg o dan 26 yn ogystal â chipio'r wobwr gyntaf fel siaradwraig orau'r adran. Llongyfarchiadau mawr i bob un, a phob lwc i bawb fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd nesaf fis Gorffennaf!

Os oes diddordeb 'da chi ymuno â'r clwb - ewch ar ein gwefan.

Cwmsychpant

Cydymdeimlo

Ar ddiwedd mis Chwefror clywyd am farwolaeth sydyn Uel Evans, Glaslwyn, Pontsian – cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i nith Mary a'i phriod John a'r teulu i gyd ym Mhenrheol o golli ewythr parchus iawn gan bawb.

Dydd Gŵyl Dewi

Yn gynnar fore Sul, Mawrth 1af daeth plant yr Ysgol Sul at ei gilydd i festri Capel-y-Cwm er mwyn paratoi cawl a phice ar y maen i bawb a oedd am aros am ginio Gŵyl Dewi yn dilyn y cwrdd. Bu pawb yn brysur yn crafu a thorri o dan arweiniad medrus un o gyn-aelodau'r Ysgol Sul, Sirian Davies, Coedlannau Fach.

Bu 14 o ddisgyblion yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn y cwrdd yn sôn am Dewi Sant a rhoi peth o'i hanes i'r gynulleidfa. Bu'r Parch Wyn Thomas wedyn yn sgwrsio gyda'r plant a chafwyd cymundeb hefyd cyn gorffen. Diolch i Einir Ryder a fu'n gwasanaethu wrth yr organ.

Yna, daeth bron pawb mewn i'r festri er mwyn profi'r cawl blasus a'r pice ar y maen – roedd rhain yn toddi yn eich ceg! Diolch yn fawr i rieni'r plant a oedd wedi cyfrannu holl gynhwysion y cawl a'r pice bach. Diolch hefyd i bawb am eu cyfraniadau hael; rhannwyd yr arian rhwng yr ysgol Sul a'r Capel.

Arholiad yr Ysgol Sul

Bore Sul, Mawrth 8fed cynhaliwyd Arholiad yr Ysgol Sul a hynny yng Nghapel y Cwm. Yn ôl yr arfer, Mrs Nanna Ryder oedd yn cymryd at yr awenau yn holi'r plant. Braf oedd gweld 17 o blant yn bresennol a diolch i bawb am gadw'r traddodiad i fynd.

Diolch

Dymuna Mary a John, Penrheol a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt pan gollwyd ewythr ac aelod o'r teulu sef Uel Evans, Glaslwyn, Pontsian yn ystod y mis. Gwerthfawrogi popeth yn fawr iawn.

GEMDY

TRYSOR

JEWELLERS

SÊL CAU LAWR

**4 wythnos olaf ~ 40% oddi ar
POB Diamwnt, Gems ac Aur**

Solitaire Diamwnt
Pris Tocyn £6,340 Pris Sêl £3,800

Modrwy Tragwyddoldeb Ddiamwnt.
Pris Tocyn £2,415 Pris Sêl £1,449
Cadwyn Aur 9ct Drom Ffansi.
Pris Tocyn £830 Pris Sêl £498

Modrwy Clwstwr Rhuddem & Diamwnt
Pris Tocyn £3,030 - Pris Sêl £1,818

Stryd y Coleg, Llambed / College Street, Lampeter
☎01570 423707

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: **01570 422401**

Ffacs: **01570 422562**

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Llanybydder

Profedigaeth

Cydymdeimlir yn ddwys gydag Arwyn ac Elma Jones, Tangar a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth o golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl, yn dilyn marwolaeth Mrs Rhianydd Evans o gartref Cwm Aur. Bu'r angladd yn gyhoeddus yng Nghapel Rhydybont, Llanybydder.

Diolch

Dymuna Sharon Williams, 5 Heol-y-Gaer ddiolch o galon am y llu o gyfarchion, cardiau a anrhegion dderbyniais ar ei phen-blwydd arbennig.

Dymuna Euronwy Doughty, Highlands ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn ac am alw i'w hysbrydoli pan oedd yn yr ysbyty'n ddiweddar.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant Flynyddol Aberduar yn y festri, nos Fercher, 18fed o Fawrth 2015. Daeth llond y festri ynghyd i gymdeithasu ac i gefnogi'r noson a brofodd i fod fel arfer yn achlysur llwyddiannus dros ben.

Llywyddwyd y gweithgareddau gan ein Gweinidog, y Parch Jill Tomos, gan groesawu pawb yn gynnes i noson sydd wedi hen sefydlu'i hun yng nghalendr yr eglwys.

Agorwyd y noson yn swyddogol gan un o blant yr eglwys sef Alan Jacob, Llys-y-coed, Pencarreg. Mae Alan yn drysorydd ac yn ddiagon ffyddlon yn y capel.

Yn ei anerchiad ddiddorol, cyfeiriodd at ei gysylltiad agos â'r eglwys yn Aberduar. Roedd gwreiddiau teulu ochr ei dad yn Aberduar ac ochr ei fam yng nghapel Brondeifi, Llambled. Roedd ei ddad-cu, Benjamin Jacob, yn ddiagon yn 1915 ac yn drysorydd o 1925 - 1950. Soniodd Alan hefyd bod ef a'i frawd Brian yn cerdded i'r cwrdd yn y bore. Byddai'n rhoi adnod allan yn ystod yr oedfa, ac yna'r Ysgol Sul yn y prynhawn. Athrawon oedd yn Ysgol Sul pryd hynny oedd Mrs Mary Eunice Davies, Y Mans, Nans George, Winnie Roberts a Miss Humphreys, Eionon View, Glanduar. Daeth Alan a'i frawd Brian yn drysoryddion yn 1986.

Cafwyd noson hapus a dymunol dros ben, ac elw ariannol sylweddol i goffrau Cymdeithas y Chwiorydd.

Fel arwydd o werthfawrogiad cyflwynodd Jill Tomos anrheg i Alan ar ran y Chwiorydd.

Diolch i Alan am ei rodd hael, ac i bawb am gydweithio gyda'r trefniadau i sicrhau llwyddiant y noson. Codwyd £1,543.40.



Swyddogion Cymdeithas Chwiorydd Aberduar Hannilia Court, Ogwen Evans, Gwen Jones ynghyd â'r Parchedig Jill Tomos, gydag Alan Jacob Lllysycoed, wedi iddo agor arwerthiant flynyddol Aberduar ar 18ed Mawrth.



Plant Ysgol Meithrin Llanybydder yn mwynhau'r dathlu.



Plant Ysgol Llanybydder yn dathlu.

Llanbedr Pont Steffan



Paratowyd Cawl Cymreig, Pwdin Bara a Phaned yn Neuadd yr Eglwys gan Gyngor Tref Llambled, er budd Cymorth Cristnogol. Yn y llun gwelir (o'r chwith): y Cynghorydd Dorothy Williams, Darpar Faer y Cynghorydd Chris a Jan Thomas, Maer y Cynghorydd Elsie Dafis a'r Faeres Liz Williams.

Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd Ceredigion 2015



Dawns Cyfansoddiad Creadigol Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 2il



Dawns Werin Bl. 4 ac Iau – Ysgol Llanwnnen 3ydd



Dawns Hip Hop / Stryd/Disgo Bl. 7 – 9 – Samantha Weller-Pryce, Ysgol Bro Pedr 2il



Grŵp Hip Hop / Stryd/Disgo Bl. 10 a dan 19 - Ysgol Bro Pedr 1af



Parti Deusain Bl.9 ac Iau [Adran]Aelwyd Llambled 1af.



Parti Merched Bl. 7-9 – Ysgol Bro Pedr 2il.



Dawns Hip Hop / Stryd/Disgo Bl. 10 a dan 19 – Elan Lewis, Ysgol Bro Pedr 3ydd



Dawns Hip Hop / Stryd/Disgo Bl. 6 ac Iau – Filip Poczatek, Bro Pedr 3ydd



Dawns Werin Bl. 6 ac Iau [ysh hyd at 100] – Ysgol Llanwnnen 1af



Côr Bl. 6 ac Iau [Adran] – Adran Llambled 2il.



Parti Unsain Bl. 6 ac Iau [Ysg hyd at 50 o blant] – Ysgol Cwrtnewydd 3ydd.



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau – [Adran] – Adran Llambled 3ydd.

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Par 1 Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd Ceredigion 2015



Plant Ysgol y Dderi a fu'n cystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd. Enillwyd pedair ar bymtheg o wobrau cyntaf, chwech ail wobwr a phum trydydd gwobr. Yn y llun mae enillwyr Cyfnod Sylfaen.



Plant Ysgol y Dderi a fu'n cystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd. Enillwyd pedair ar bymtheg o wobrau cyntaf, chwech ail wobwr a phum trydydd gwobr. Yn y llun mae enillwyr Cyfnod Allweddol 2.




Unawd Piano Bl. 6 ac Iau – Sioned Davies, Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Unawd Llinynnol Bl. 6 ac Iau – Austin Thomas, Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Monolog Bl. 10 a dan 19 oed – Twm Ebbsworth, Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Llefaru Bl. 5 a 6 [D] – Julia Naghy, Ysgol Bro Pedr 2il.



Ensemble Offerynnol Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Grŵp Llefaru Bl. 7-9 – Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Ymgom Bl. 10 a dan 19 oed – Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Grŵp Llefaru Bl. 9 ac Iau [Adran] – Aelwyd Llambled 1af.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel sut mae ffrindiau bach? Gobeithio eich bod chi gyd yn iawn, ac yn mwynhau mas draw yn yr haul bendigedig yma, ac efallai wedi bod yn gwneud llawer o bethau cyffrous yn heulwen mis Mawrth. Y penwythnos diwethaf bues i a fy ffrindiau Beni'r Bwni a Siwsi Sgwarnog yn brysur iawn yn casglu wyau ar gyfer y Pasg. Ydych chi wedi cael ambell i wy Pasg yn barod? Dw i'n dwli ar wyau Pasg, yn enwedig y rhai mawr siocled. Mmmmmmm! Ffeeeeeeein! Buon ni hefyd yn brysur yn chwarae mas yn yr ardd.

Wel, er bod y tywydd wedi bod yn braf i chwarae tu fas, mi wnaeth nifer fawr ohonoch chi liwio lluniau bendigedig i mi y mis yma. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth ddanfôn eu lluniau ataf ond yn enwedig i Annie Thomas o Bencarreg, Holly Ann Davies o Abertawe, Erin Potter-Jones o Drefach a Dwynwen Williams o Bencarreg am liwio bendigedig. Y llun wnaeth fy mhlesio orau'r mis hwn oedd un taclus, taclus Betsan Gwladys, Henbant, Llangeitho, Tregaron. Da iawn ti Betsan!

Erbyn i rifyn mis nesaf Clonc gael ei gyhoeddi bydd llawer ohonoch wedi bod yn bwyta eich wyau Pasg siocled, felly beth am i chi fynd ati i liwio llun fy ffrind Beni'r Bwni a'i wy Pasg anferth? Danfonwch y lluniau ataf erbyn dydd Llun, Ebrill 27ain.

Ta ta tan toc.

Hwyl am y tro,




Enillydd
ymis!

Betsan
Gwladys

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**



Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



LLANFFA a PONTLLOGEL (72)

LLANFFA

Mae Llanffa ym mhlwyf Ewenni yn Sir Forgannwg; ystyr yr enw yw eglwys (sant) Tyfai. Mae'n debygol fod y pentref wedi ei enwi ar ôl hen gapel eglwysig cynnar, capel Ogwr, Llanffa.

Llampha yw'r ffurf sy'n digwydd amlaf ar fapiau, lle y mae'r ff Gymraeg yn cael ei dynodi gan ph.

Y ffurf gynharaf ar yr enw yw 'lan tiuei'; Llandyfai fyddai'r ffurf mewn ysgrifennu cyfoes. Yr elfennau yn yr enw yw 'llan' ac enw'r sant, sef Tyfai. Mae'r elfen 'ty-' yn dynodi parch ac yn yr achos hwn mae'n cael ei dilyn gan yr enw personol Mai. Mae'r prif bwyslais yn Tyfai ar y sillaf olaf ond mewn cyfnod cynnar roedd yr elfen 'ty-' wedi colli fel y profir gan ffurfiau megis 'Lanfey'.

Mae'r un elfennau yn union yn digwydd yn enw Llandyfeisant, ym mharc Dinefwr, Llandeilo; ond yn Llandyfeisant cadwyd yr elfen 'ty-' ac o ganlyniad mae'r patrwm pwysleisio ychydig yn wahanol.

Mae traddodiad sy'n cysylltu Tyfai ag ardal Castellmartin yn Sir Benfro ac mae'r sant yn cael ei goffáu yn Llandyfai ('Lamphey') yn y sir honno.

Fel yn achos llawer iawn o seintiau cynnar, ychydig iawn y gellir ei ddweud yn bendant am Tyfai; ym 'Mucedd Teilo' dywedir ei fod yn nai i Teilo. Tair eglwys yn unig sydd wedi eu cysegru iddo yng Nghymru. Ond mae enw yn sir Henffordd, sef Foy ger Rhoson ar Wy yn ei goffáu yn ogystal.

PONTLLOGEL

Mae'r coetir bychan sydd ar gyrion pentref Pontllogel, Sir Drefaldwyn, yn warchodfa dan ofal Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn fan cychwyn ar gyfer dewis diddorol o deithiau cerdded: Llwybr Glyndŵr, Llwybr Ann Griffiths, Pererindod Melangell a Llwybr Pontllogel sy'n dilyn Afon Efyrrwy.

Mae'r elfen gyntaf yn Pontllogel yn cyfeirio at y bont sy'n ei gwneud hi'n hwylus i groesi Afon Efyrrwy. Mae'r ail elfen yn creu llu o anawsterau gan fod cynifer o ystyron amrywiol i 'llogel': ffens o wiail plethedig, wal, clwyd, ochr adeilad, brig wal o dan y bondo. O ganlyniad, mae'n anodd penderfynu pa fath o bont yn union sy'n cael ei disgrifio: 'pont â'i hochrau o wiail plethedig' o bosibl, neu 'pont wedi'i hadeiladu o drawstiau pren'.

Mae'n bosibl, yn ogystal, mai'r ail elfen yw 'llogell' sef lle bach neu drigfan; tybed felly ai 'pont â bwthyn bychan (ar un pen iddi)' oedd yma? Ond gall 'llogell' hefyd ddynodi cist fechan neu focs: mae'n bosibl felly mai'r ystyr yw 'pont fechan ar ffurf boc'. Yr hyn sy'n sicr yw bod y cyfan yn ansicr ar hyn o bryd.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. enwaulleoedd@gmail.com

www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru.org



Côr Merched S.A. Bl. 13 ac iau – Ysgol Bro Pedr 2il.



Deuawd Cerdd Dant Bl. 9 ac iau – Elan a Beca, Aelwyd Llambled 2il.



Llefaru Unigol Bl. 7-9 [D] – Aisvarya Sridar, Ysgol Bro Pedr – 2il.



Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed 1af, Cyflwyno Alaw Werin Bl. 10 a dan 19 oed 2il – Lois Thomas, Ysgol Bro Pedr. Deuawd Bl.10 a dan 19 oed – Lowri Elen a Lois Thomas, Ysgol Bro Pedr 1af.



Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed 1af, Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed 2il, Unawd allan o Sioe Gerdd Bl. 10 a dan 19 oed 2il – Lowri Elen Jones, Aelwyd Llambled.



Ymgom Bl. 7-9 – Ysgol Bro Pedr 3ydd.




Grŵp Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed – Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Côr Cerdd Dant Bl. 13 ac iau – Ysgol Bro Pedr 1af.

Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd Ceredigion 2015



Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau 2il a
Chyflwyno Alaw Werin Bl. 6 ac Iau
3ydd – Alwena Owen, Ysgol Llanllwni



Unawd Bl. 2 ac Iau ac Unawd
Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau – Cerys
Angharad Jones, Ysgol Y Dderi 2il.



Llefaru Bl. 3 a 4 – Clodagh
Dalton, Ysgol Cwrtnewydd 2il.



Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4
– Gruffydd Llwyd Dafydd, Ysgol Y
Dderi 1af.



Parti Bl. 6 ac Iau [Adran] – Adran Llambod 1af



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau – Ysgol Carreg Hirfaen 3ydd.



Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 – Nia
Morgans, Ysgol Cwrtnewydd 2il.



Deuawd Bl. 6 ac Iau – Sioned a
Nia, Ysgol Bro Pedr 1af.



Llefaru Bl. 3 a 4 [D] – Nikola
Jablonska, Ysgol Bro Pedr 2il.



Unawd Bl. 5 a 6 – Sioned Davies,
Ysgol Bro Pedr 2il.



Cân Actol Bl. 6 ac Iau [Ysg hyd at 100 o blant] – Ysgol Cwrtnewydd 2il.